



Cyfarfod

Y CYNGOR

Dyddiad ac Amser

1.00 y.h., DYDD IAU, 6ED RHAGFYR, 2018

*** NODER ***

Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu

https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home

Lleoliad

Siambr Dafydd Orwig, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

Pwynt Cyswllt

Eirian Roberts

01286 679018

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

(DOSBARTHWDYD 28/11/18)

**Dilwyn Williams
Prif Weithredwr**

www.gwynedd.llyw.cymru

DYDD MERCHER, 28 TACHWEDD 2018

Annwyl Gyngorydd,

CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 6 RHAGFYR 2018

FE'CH GWYSIR TRWY HYN i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00 y.h.**, **DYDD IAU, 6ED RHAGFYR, 2018 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON, GWYNEDD. LL55 1SH**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir

A handwritten signature in blue ink that reads "Dewi Sillan". The signature is written in a cursive style with a large initial 'D'.

Prif Weithredwr

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol – Siambr Hywel Dda
Llais Gwynedd – Ystafell Gwyrfai
Annibynnol Unedig Gwynedd - Ystafell Daron

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. COFNODION

7 - 22

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod fel rhai cywir:-

- (a) 4ydd Hydref, 2018 (ynghlwm)
- (b) 25ain Hydref, 2018 – Cyfarfod Arbennig (ynghlwm).

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

6. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

7. CWESTIYNAU

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad.

8. CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2019/20

23 - 27

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid (ynghlwm).

9. TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATAU 28 - 31 DISGOWNTIAU A / NEU GODI PREMIWM

Cyflwyno adroddiad y Dirprwy Arweinydd (ynghlwm).

10. COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL - ADRODDIAD 32 - 40 ARGYMHELLION TERFYNOL

Cyflwyno adroddiad yr Arweinydd (ynghlwm).

11. PENDERFYNIAD BRYD CABINET

41

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol (ynghlwm).

12. RHYBUDDION O GYNNIG

(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD PAUL ROWLINSON

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho o dan Adran 4.20 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cyngorydd Paul Rowlinson yn cynnig fel a ganlyn:-

Mae'r Cyngor yn mynegi pryder am gynigion Llywodraeth Cymru, "Brexit a'n tir: diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru".

Mae'r Cyngor yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru, a amlinellwyd yn ei dogfen ymgynghorol, i gefnogi busnesau fferm er mwyn eu gwneud yn fwy cystadleuol. Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi'r bwriad i gydnabod yn ariannol y cyfraniad ychwanegol amhrisiadwy y mae amaeth yn ei wneud i ardaloedd gwledig a Chymru gyfan.

Serch hynny, mae'r Cyngor yn gwrthwynebu cynigion presennol Llywodraeth Cymru, a all danseilio hyfywedd ein cymunedau gwledig a niweidio tirwedd, cymdeithas a phroffil ieithyddol Cymru.

Mae'r Cyngor felly yn cefnogi ymateb yr Arweinydd i'r ymgynghoriad ar ran y Cyngor yn arddel y gofynion canlynol:

- ddarparu amgylchedd sefydlog i fusnesau fferm wrth iddynt addasu i'r newidiadau anochel yng nghyflwr y farchnad wedi Brexit, drwy barhau i roi cefnogaeth uniongyrchol i ffermydd fel ag ar hyn o bryd, am gyhyd ag sy'n briodol, heblaw am fesurau i symleiddio gweinyddiaeth y drefn;
- peidio â gweithredu unhyw newidiadau wedyn heb wneud ymchwil a modelu manwl, ar lefel ddaearyddol sy'n ddigon mân i sicrhau y byddant yn cael canlyniadau cadarnhaol i amaethwyr, i'r economi, i gymunedau gwledig ac i'r iaith Gymraeg, gan roi ystyriaeth ddigonol i'r gwahanol ffyrdd y defnyddir tir;
- sicrhau bod cefnogi amaethwyr i gynhyrchu bwyd yn elfen allweddol o unrhyw gyfundrefn gwneud taliadau yn y dyfodol; sicrhau bod unrhyw arian a delir i gydnabod gwerth ehangach amaeth yn ychwanegol i hyn; diffinio'r gwerth ychwanegol hwn yn eang i gynnwys gwerth economaidd, cymdeithasol a diwylliannol amaeth yn ogystal â'i rôl o ran gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol.
- sicrhau y rhoddir cefnogaeth i'r rhai sy'n gweithio ar y tir a'i reoli yn unig, gan ganolbwyntio ar ffermydd teulu bach a chanolig;
- darparu arian wedi'i neilltuo ar gyfer ei fuddsoddi mewn datblygu

gwledig, yn arbennig i gefnogi prosiectau sy'n ymateb i'r heriau economaidd y mae Cymru wledig yn eu hwynebu. Dylid cyfeirio'r arian i'r ardaloedd hynny y mae eu heconomi fwyaf bregus oherwydd eu bod yn ardaloedd ymylol.

(B) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD JUDITH HUMPHREYS

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrthi o dan Adran 4.20 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cyngorydd Judith Humphreys yn cynnig fel a ganlyn:-

Pleidlais y Bobl

Noda'r Cyngor:

- Bod mwyafrif sylweddol o boblogaeth Gwynedd wedi pleidleisio i Aros yn yr Undeb Ewropeaidd.
- Fod swyddi, cyflogau a gobeithion yng Ngwynedd a Chymru mewn perygl o ganlyniad i'r DG yn gadael yr Undeb Ewropeaidd
- Fod potensial y bydd y DG yn peidio â dod i gytundeb gyda'r Undeb Ewropeaidd ar delerau gadael ac fod perygl y bydd hwn yn achosi difrod economaidd a chymdeithasol anadferadwy yn syth. Mae hyn yn cynnwys materion hawliau dinasyddion Ewropeaidd yn y DG a dinasyddion y DG yn yr Undeb Ewropeaidd, cyflenwad bwyd a mynediad at feddyginiaethau, ond nid y materion hyn yn unig.
- Nad yw San Steffan yn llwyddo i warchod swyddi, cyflogau na gobeithion Cymru trwy negydu parhad ein haeoldaeth o'r Farchnad Sengl Ewropeaidd neu'r Undeb Tollau yn dilyn unrhyw ymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd
- Ers y bleidlais wreiddiol i adael yr Undeb Ewropeaidd y cafwyd mwy o eglurder ynghylch sut y byddai gadael y bloc yn effeithio ar bobl Cymru
- Fod prosesau democrataidd cywir yn mynnu fod pobl Cymru yn cael cyfle i fwrw pleidlais ddeallus ynghylch ein perthynas yn y dyfodol â'r Undeb Ewropeaidd yn dilyn trafodaethau ar y mater

Cynigia'r Cyngor:

- Y dylid cynnal refferendwm ledled y DG ar berthynas y DG yn y dyfodol â'r Undeb Ewropeaidd yn dilyn unrhyw gytundeb ar ymadawiad y DG, neu os na fydd y trafodaethau yn arwain at gytundeb ar delerau ymadawiad y DG o'r Undeb Ewropeaidd
- Dylai'r refferendwm gynnwys y dewis i aros yn yr Undeb Ewropeaidd

13. YMATEBION I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL

YMATEB I RYBUDD O GYNNIG BLAENOROL Y CYNGHORYDD CATRIN WAGER

42 - 43

Cyflwyno – er gwybodaeth – llythyr gan y Swyddfa Gartref mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Catrin Wager i gyfarfod 4 Hydref, 2018 ynglŷn â chanolfannau cadw i fewnfudwyr (ynghlwm).

Y CYNGOR 4/10/18

Yn bresennol: Y Cyngorydd Annwen Hughes (Cadeirydd);
Y Cyngorydd Edgar Wyn Owen (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr: Craig ab Iago, Menna Baines, Freya Hannah Bentham, Stephen Churchman, Steve Collings, R.Glyn Daniels, Anwen Davies, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Dylan Fernley, Peter Antony Garlick, Simon Glyn, Gareth Wyn Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, R.Medwyn Hughes, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aeron M.Jones, Aled Wyn Jones, Berwyn Parry Jones, Charles W.Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Eric Merfyn Jones, Huw Wyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dafydd Owen, Dewi Owen, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Peter Read, Dewi Wyn Roberts, Elfed P.Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Hefin Underwood, Catrin Wager, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams ac Owain Williams.

Hefyd yn bresennol: Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards ac Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Rhun ap Iarll (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth), Gwenllian Williams (Swyddog Datblygu Iaith Gwynedd – Gweithle) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Dylan Bullard, Annwen Daniels, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Sian Hughes, Anne Lloyd Jones, Linda Ann Jones, Roy Owen, Jason Parry, W.Gareth Roberts, Cemlyn Williams, Gethin Glyn Williams a Gruffydd Williams.

2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf, 2018 fel rhai cywir.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorwyr Dilwyn Lloyd a Simon Glyn fuddiant personol yn eitem 8 ar y rhaglen – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru: Diweddariad Ariannol ac Ymgynghoriad 2019/20, oherwydd eu bod yn aelodau o'r Awdurdod hwnnw. Hefyd, datganodd y Cyngorydd Nia Jeffreys fuddiant personol yn yr un eitem oherwydd bod ei gŵr yn ddyn tân.

Nid oedd yr aelodau o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac ni adawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Dymunwyd yn dda i Gwyn Morris Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar ei ymdeoliad ddiwedd Awst.

Llongyfarchwyd:-

- Manon Steffan Ros, Gruffudd Owen a Rhydian Gwyn Lewis, a phawb arall o Wynedd a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd eleni.
- Edmund Bailey, Arglwydd Raglaw Gwynedd ar gael ei benodi'n Gwnstabl Castell Caernarfon.
- Y criw o Gynghorwyr hynny, dan arweiniad Dilwyn Lloyd, Jason Parry a Roy Owen, fu'n trefnu digwyddiad "Trons dy Dad" i godi arian at Apêl y Prostate yn ddiweddar. Codwyd dros £3,500, hyd yma, a deallid y byddai cwmni Santander yn dyblu'r swm terfynol.

Nodwyd y byddai'n rhaid cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru am 10.00 o'r gloch, dydd Iau, y 25ain o Hydref. Byddai gwahoddiad ffurfiol yn cael ei anfon at bawb yn dilyn y cyfarfod hwn.

5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL

Dim i'w nodi.

6. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

7. CWESTIYNAU

(Dosbarthwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau i'r aelodau ymlaen llaw.)

(1) Cwestiwn gan y Cynghorydd Sion Jones

"Pa bwerau sydd gan gymunedau lleol a chynghorwyr i benderfynu pa denantiaid sy'n cael tai cymdeithasol o fewn ein cymuned?"

Ateb gan yr Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant, y Cynghorydd Craig ab Iago

"Rwy'n credu mai'r pwnc yma ydi un o'r rhai sy'n achosi'r rhwystr mwyaf i gynghorwyr. Rydym ni i gyd yn ymwybodol o achosion yn ein wardiau lle mae pobl angen tai ac rydym yn darganfod bod y tŷ, neu'r tai, yn mynd i rywun o'r tu allan i'n cymunedau. Yn bersonol, hoffwn weld system tai yn cael ei ddylunio gennym ni yma ar sail ein blaenoriaethau. Mae yna sawl enghraifft ar draws y byd ac yn Ewrop lle mae systemau tai yn gosod tai ar sail pethau fel grŵp ethnig, iaith, cyswllt lleol - ac nid yw'r un ohonynt yn hiliol. Mae'r Cenhedloedd Unedig a'r Undeb Ewropeaidd wedi cadarnhau hynny. Ond er mwyn gwneud hynny rydym angen y grym ac nid yw'r grym yna gennym oherwydd bod y llywodraethau yng Nghaerdydd ac yn Llundain yn dweud hynny. Felly rydym ni yn y sefyllfa wrthnysig rŵan lle mae Cernyw yn gallu gwneud llawer mwy na ni gyda'u system tai, ond dyma lle rydym ni rŵan ac ni allwn wneud ond yr hyn y gallwn ei wneud."

Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Sion Jones

"A wnaiff yr Aelod Cabinet, hefo fi, sgwennu at y Cynulliad a San Steffan i drio dechrau trafodaeth eto i ni gael system llawer mwy cadarn a gwell o fewn ein cymuned a'r Cyngor?"

Ateb gan yr Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant, y Cynghorydd Craig ab Iago

"Y gwir ydi, mae gan y mwyafrif o bobl sy'n cael ein tai gyswllt lleol, ond beth mae cyswllt lleol yn olygu? Beth ydi'r diffiniad o gyswllt lleol? Dyna ydi ein problem ni,

bod ni ddim yn cael gwneud hynny. Er y byddwn yn hoffi newid y system i gyd, byddwn yn dweud nad yw'r Llywodraeth Lafur yng Nghaerdydd wedi dangos unrhyw ddiddordeb ynddo, trwy gynllunio na thai, ac os ydym wir eisiau system tai gwahanol, yr ateb ydi pleidleisio dros blaid wahanol yn ein Llywodraeth ond byddaf yn gwneud fy ngorau i wneud yn siŵr ein bod ni yn gallu gwneud yr hyn y gallwn ei wneud a rhoi pwysau ar bwy bynnag i newid y system."

(2) Cwestiwn gan y Cyngorydd Owain Williams

"Pam bod rhai o brif swyddogion y Cyngor yn gwrthod rhybudd o gynnig gan gyngorydd dro ar ôl tro, gan ddefnyddio esgusion cloff, e.e. fod y cynnig wedi cyrraedd yr adran anghywir ym mis Gorffennaf ac ym mis Medi dweud ei fod yn "anghyfreithlon"?"

Ateb gan Gadeirydd y Cyngor, Y Cyngorydd Annwen Hughes

"Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn caniatáu i aelodau gyflwyno rhybuddion o gynnig yn ddarostyngedig eu bod ynglŷn â materion mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt neu sydd yn effeithio ar les ardal weinyddol y Cyngor.

Mabwysiadwyd proses ffurfiol gan y Cyngor yn ei gyfarfod yn Rhagfyr 2017 er sicrhau priodoldeb rhybuddion o gynnig. Yn ôl y drefn, os yw'r Swyddog Monitro o'r farn nad yw cynnig yn unol â'r Cyfansoddiad neu yn amhriodol am resymau eraill, bydd yn cyfeirio'r cynnig gyda'i farn i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i benderfynu ar ei gynnwys ai pheidio.

Mae gwrthod derbyn rhybudd o gynnig yn ddigwyddiad hynod anarferol ac yn sicr nid yn ddigwyddiad "tro ar ôl tro". Fel y gellir tybio rhoddir ystyriaeth ofalus i gymryd y cam yma. Ar y llaw arall ni ellir diystyru'r ffaith y gall fod arwyddocâd cyfreithiol i benderfyniadau'r Cyngor a bod angen cyd-fynd â'r Cyfansoddiad. Dyma pam mae'r drefn mewn lle. Rhoddir esboniad ysgrifenedig o'r penderfyniad a'r rhesymeg i'r aelod a gyflwynodd y rhybudd.

Rhaid i bob cynnig gael ei gyflwyno o fewn y rhiniog amser o 10 diwrnod clir cyn y cyfarfod. Os derbynnir cais tu allan i'r ffin yma fe hysbysir yr aelod a bydd yn cael ei ystyried ar gyfer rhaglen y Cyngor nesaf. Hyd y deallir, nid oes unrhyw rybudd o gynnig wedi mynd ar wasgar yn y modd yr awgrymir. Derbyniwyd rhybudd yn rhy hwyr ar gyfer cyfarfod mis Gorffennaf. Ar ystyriaeth bellach daethpwyd i'r casgliad nad oedd yn cyrraedd gofynion y Cyfansoddiad a hysbyswyd yr aelod ym mis Awst."

Cwestiwn Atodol gan y Cyngorydd Owain Williams

"I ble'r aeth y rhybudd o gynnig os yw'r Swyddog Monitro yn honni nad aeth ar goll?"

Ateb gan Gadeirydd y Cyngor, Y Cyngorydd Annwen Hughes

"Mi wnawn ymchwilio i hyn a dod yn ôl atoch."

(3) Cwestiwn gan y Cyngorydd Dewi Owen

"A yw Arweinydd y Cyngor yn bwriadu ysgrifennu at Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, yn gwrthwynebu unrhyw gynigion i newid polisiau amaethyddol a chefn gwlad sydd ar hyn o bryd yn bodoli o dan y Polisi Amaeth Cyffredinol heb eu hasesu yn gynhwysfawr a manwl o ran yr effaith bosibl i swyddi a'r economi yn Sir Gwynedd a'u treialu ar ffermydd gwirfoddol?"

Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn

“Mae’r cwestiwn hwn yn gyfle i mi egluro i holl aelodau’r Cyngor beth yw ein bwriadau ni ar y papur ymgynghorol yma sydd â goblygiadau pellgyrhaeddol sylweddol iawn, nid yn unig i’r diwydiant amaeth, ond i’r economi gwledig yn gyfan gwbl. Rydw i wedi arwain trafodaeth gyda’r swyddogion ac yn bwriadu ymateb i’r papur yma. Rydw i wedi cael trafodaethau gyda’r ddwy undeb ac wedi cael rhagor o drafodaethau wedyn gyda’r swyddogion wrth baratoi’r ymateb. Rydym hefyd wedi trafod y mater yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn a bydd ymateb yn mynd o’r Bwrdd hwnnw hefyd.

Fel sy’n arferol yn y Llywodraeth leiaf effeithiol a welwyd erioed, sef Llywodraeth Cymru, mae’n amlwg nad yw’r Gweinidog wedi trafod goblygiadau Cenedlaethau’r Dyfodol o gwbl na chwaith wedi trafod beth ydi goblygiadau hwn gyda’i chydweinigod ar yr economi. Mae’n ymddangos i mi fod hwn yn rhywbeth sy’n digwydd, mae silos Llywodraeth Cymru i’w gweld yn glir yma. Mae’n dystiolaeth o ddiffyg diddordeb a diffyg gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru ar faterion cefn gwlad ac mae hynny wedi amlygu ei hun sawl gwaith yn y trafodaethau rydw i wedi gael dros y blynyddoedd.

Bydd y mater yn cael ei drafod yn Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ystod wythnos olaf Hydref a bydd ymateb yn mynd ar ran holl gynghorau gwledig Cymru o’r fforwm hwnnw hefyd. Felly gallaf eich sicrhau y bydd yna ymatebion cryf yn mynd ymlaen.

Nid oes yna unrhyw fath o waith wedi digwydd i fodelu effaith hwn ar gefn gwlad, a heb ystyried yr effeithiau hynny, mae’n rhaid i ni ymateb mor gadarn ag y gallwn. Mi fuaswn bron â dweud wrth weinidogion Llafur bod posibilrwydd effaith hwn cynddrwg â’r hyn ddigwyddodd i gymoedd pyllau glo’r De ychydig flynyddoedd yn ôl. Mae mor bellgyrhaeddol â hynny yn fy marn ac os nad ydynt yn cymryd y sylw yna o ddifri’, fe ddylid eu dal i gyfri’ am eu difrawder o gefn gwlad Cymru. Felly mae yna gyfrifoldeb arnom, ac rydw i’n teimlo’n gryf iawn, nid oherwydd mod i’n derbyn arian pitw bach - y ffermwr drama fel yr ydwyf, ond oherwydd y sgil effeithiau i strwythur y diwydiant amaeth, ac o ganlyniad i hynny, holl wead cymdeithas wledig, gan gynnwys yr economi ac yn gymdeithasol, a’r Gymraeg, wrth gwrs.

Felly, mae’n un o’r papurau pwysicaf y dylem roi ystyriaeth iddo. Rydw i’n ymwybodol o’r peryglon, ac os gwelaf Lesley Griffiths yn rhywle, fe ddywedaf yn blaen wrthi be rydw i’n feddwl o’r papur yma fel ag y mae. Beth sydd gennym yma, wrth gwrs, ydi trosglwyddo polisi amaeth Ewrop i Gaerdydd yn llwyr. Ni sy’n gyfrifol am bolisi amaeth a pholisïau gwledig Cymru rwan. Efallai y byddwn yn dal i barhau yn Ewrop os cawn refferendwm arall, ond ni awn ar ôl y sgwarnog hwnnw! Mae yna gyfle i Lywodraeth Cymru gydio ac edrych yn fanwl ar bolisïau gwledig a pholisïau amaethyddol hefyd a dweud dyma ein cynlluniau ar gyfer amaeth. Rydym yn credu bod cynhyrchu bwyd yn bwysig. Mae’r amgylchedd yn bwysig ond rhaid i ni gael cynhyrchwyr ar y tir i warchod yr amgylchedd hwnnw, ond nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu gwneud dim heblaw cynnig rhywbeth sydd heb lawer o feddwl y tu ôl iddo mae gen i ofn. Felly, rwy’n eich sicrhau bod yna ymateb cryf am fynd o’r Cyngor yma ac o unrhyw sefydliad arall y byddaf i yn rhan ohono.”

8. **AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU: DIWEDDARIAD ARIANNOL AC YMGYNGHORAD 2019/20**

Croesawyd y swyddogion canlynol o’r Awdurdod Tân ac Achub i’r cyfarfod i roi cyflwyniad ac i ateb cwestiynau’r aelodau:-

- Richard Fairhead (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol) (*yn gyfrifol am yr ochr weithredol*)
- Shân Morris (Prif Swyddog Cynorthwyol) (*yn gyfrifol am bolisi a chynllunio corfforaethol*)
- Helen MacArthur (Prif Swyddog Cynorthwyol) (*yn gyfrifol am gyllid ac adnoddau*)

Yn dilyn y cyflwyniad, codwyd y pwyntiau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Diolchwyd i'r gwasanaeth am eu gwaith ar ran trigolion Gwynedd a nodwyd bod y cyflwyniad yn un grymus iawn oedd yn dangos pwysigrwydd y gwasanaeth a pha mor anodd yw gweithredu yn yr hinsawdd ariannol anodd sydd ohoni.
- Nodwyd y bydd unrhyw gynnydd ardoll yn 2018/19 yn golygu y bydd pob cyngor yn gorfod torri mwy ar eu gwasanaethau a holwyd a oedd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn symud ymlaen gyda'r cynllun i arbed costau erbyn 2019/20. Mewn ymateb, nodwyd bod rhaid i'r holl reolwyr adolygu eu cyllidebau a'u bod yn ymwybodol o'r angen i leihau eu sylfaen costau. Y nod oedd rheoli'r costau heb newid y gwasanaethau rheng flaen. Fel rhan o'r gwaith o gynllunio ar gyfer 2019/20, cynhaliwyd cyfarfodydd gydag aelodau'r Awdurdod lle ystyriwyd nifer o opsiynau i leihau costau, gan gynnwys cau gorsafoedd rhan amser, newid gorsafoedd 24 awr i orsafoedd dydd a newid gorsafoedd dydd i orsafoedd rhan amser. Fodd bynnag, penderfyniad aelodau'r Awdurdod ym Mehefin eleni oedd i beidio newid y model darparu gwasanaeth yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd.
- Gofynnwyd am gadarnhad ynglŷn â sefyllfa Gorsaf Dân Caernarfon a'r gwasanaeth i ardaloedd cefn gwlad Gwynedd. Mewn ymateb, nodwyd bod Caernarfon yn orsaf ddydd (gyda staff yn bresennol rhwng hanner dydd a 10 o'r gloch yr hwyr, sef yr adeg prysuraf) a bod y gwasanaeth yn cael ei staffio gan weithwyr rhan amser a gweithwyr llawn amser ar ddyletswydd gartref y tu allan i'r oriau hynny. Cadarnhawyd yr anelir i gadw'r orsaf ar y lefel honno eleni. Cadarnhawyd hefyd y bydd y pwmp cyfaint uchel newydd a leolir yng Nghaernarfon yn cael ei ddefnyddio ar gyfer tanau a llifogydd mawr ar draws Gwynedd gyfan.
- Cwestiynwyd pam y gwelwyd yr angen i lenwi'r swydd dirprwy, gan i'r swydd fod yn wag am flwyddyn gyfan. Mewn ymateb, eglurwyd nad oedd y swydd bresennol yn cyfateb yn union i'r hen swydd. Edrychwyd ar ymarferoldeb y rôl a'r set sgiliau mewnol, ond roedd angen Cyfrifydd Cymwysedig i gyflawni'r gwaith.
- Awgrymwyd y gallai'r gwasanaeth arbed £250,000 (sy'n cyfateb i 7.5% o'u costau gweinyddol) drwy ddychwelyd i'r hen drefn lle byddai'r diffoddwyr tân eu hunain yn glanhau'r gorsafoedd rhwng tanau. Mewn ymateb, eglurwyd yr arferai'r gweithwyr dderbyn tâl ychwanegol am y gwaith hwnnw, felly 'roedd yna gost i'r gwasanaeth beth bynnag. Nodwyd ymhellach bod llawer o'r gwaith atal yn cael ei gyflawni gan staff ategol erbyn hyn, yn hytrach na'r diffoddwyr tân eu hunain, a bod hynny'n fwy cost effeithiol i'r gwasanaeth.
- Nodwyd y gwerthfawrogid y dyfal barhad a'r ffordd mae'r Awdurdod Tân yn ymdrin â'r holl heriau sy'n eu hwynebu, a hynny mewn ffordd hynod o broffesiynol, dyfeisgar ac effeithiol. Yn y blynyddoedd diwethaf, 'roedd yr Awdurdod wedi ymestyn eu gwasanaethau i gynnwys delio gydag effeithiau newid hinsawdd a gwaith ataliol, oedd nid yn unig wedi gwneud yr Awdurdod yn fwy effeithiol, ond oedd hefyd wedi achub cannoedd o fywydau ar draws Gogledd Cymru.
- Diolchwyd i'r gwasanaeth am eu gwaith yn delio â'r tân difrifol ar Fynydd Cilgwyn ym mis Gorffennaf a nodwyd na ddymunid eu gweld yn derbyn llai o arian gan y Cyngor.
- Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd bod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn rhannu nifer o hybiau gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans ar draws Gogledd Cymru a'u bod yn edrych ar wneud trefniadau tebyg gyda Heddlu Gogledd Cymru a phartneriaid eraill yn ogystal.

- Holwyd beth mae'r gwasanaeth yn ei wneud i ddarbwylllo pobl bod yr arferiad o gynnu tanau ar fynydd-dir yn gwbl anghymdeithasol ac ym mha ffordd y gall y Cyngor a'r aelodau gynorthwyo yn hyn o beth. Mewn ymateb, eglurwyd bod y gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda'r gymuned ffermio i'w cynghori o safbwynt llosgi dan reolaeth. Cynhelid trafodaethau gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol i sicrhau bod y cyngor priodol yn cael ei roi i ymwelwyr ac roedd trafodaethau cyson yn digwydd gyda'r ysgolion hefyd. Ychwanegwyd y byddai'r gwasanaeth yn gwerthfawrogi pob cymorth i ledaenu'r neges.
- Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd mai'r rhif ffôn ar gyfer cysylltu â'r gwasanaeth ar adeg pan nad ydi'r achos yn argyfwng yw 0800 169 1234. Roedd modd cysylltu â'r gwasanaeth drwy Facebook, Twitter, ayb, hefyd.
- Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd bod recriwtio diffoddwyr rhan amser yn anodd ar draws y DU. Llwyddid i recriwtio mewn rhai ardaloedd, ond roedd yr her yn un barhaus.
- Holwyd pa mor barod oedd busnesau i ryddhau pobl i fod yn ddiffoddwyr tân. Mewn ymateb, nodwyd y deallid y pwysau ar fusnesau ond bod y gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda hwy i hyrwyddo manteision cael diffoddwyr tân yn gweithio iddynt, e.e. profiad cymorth cyntaf, diogelwch tân ac iechyd a diogelwch.
- Mynegwyd pryder y gallai strydoedd culion a phroblemau parcio achosi rhwystr i injan dân sy'n ymateb i alwad brys. Mewn ymateb, nodwyd bod gan y gwasanaeth gerbydau arbennig ar gyfer mynedfeydd cul a'u bod wedi adnabod y manau hynny lle mae mynediad yn anodd. Gofynnwyd i unrhyw aelod oedd â phryder am rywle yn ei ward gysylltu â'r gwasanaeth fel y gallent fynd yno i wneud asesiad.

Diolchodd y Cadeirydd i swyddogion yr Awdurdod am eu cyflwyniad diddorol gan ychwanegu y byddai copïau o'r cyflwyniad sleidiau yn cael eu hanfon at yr aelodau.

9. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG YNG NGWYNEDD 2018-23

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Cynghorydd Nia Jeffreys, adroddiad yn argymhell i'r Cyngor dderbyn y Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-23 a'r rhaglen waith gysylltiedig ac i gymeradwyo cychwyn ar y gweithredu.

Codwyd y pwyntiau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Nodwyd mai'r Cyngor hwn sy'n arwain ac yn arloesi o ran y Gymraeg ac y dylid ymfalchïo yn y strategaeth hon sy'n un o flaenoriaethau'r Cyngor.
- Er bod y Cyngor yn gwneud gwaith arloesol o ran y Siarter Iaith Cynradd a'r Strategaeth Iaith Uwchradd, bod yna fwch o ran yr addysg ôl-orfodol a'i bod yn bwysig bod y Cyngor yn cydweithio gyda'i bartneriaid yn y cyswllt hwnnw hefyd.
- O ystyried cyfraniad sylweddol rhai o bartneriaid y Cyngor i lwyddiant elfennau penodol o'r strategaeth, holwyd pa ran a gymerwyd gan y partneriaid hynny yn yr ymgynghoriad a sut y bwriedir cydweithio gyda hwy i wireddu'r strategaeth. Mewn ymateb, nodwyd bod y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn rhan bwysig o hyn a bod yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn sicr o wthio'r gwaith yn ei flaen. Nodwyd hefyd bod sgysiau wedi'u cynnal eisoes gyda rhai o'r partneriaid oedd wedi ymateb yn uniongyrchol i'r ymgynghoriad er mwyn gweld beth i'w gynnwys yn y rhaglen waith. Roedd trafodaethau pellach i'w cynnal gyda rhai partneriaid a'r nod oedd sefydlu un grŵp fyddai'n dod â'r holl bartneriaid ynghyd fel man cychwyn i drafod y strategaeth a'r rhaglen waith yn ei chyfanrwydd ac wedyn ei dorri i lawr i'r meysydd thematig a dod â'r partneriaid penodol i mewn.
- Nodwyd bod y ddogfen yn ddi-ddrwyg / ddi-dda, sy'n ateb y gofynion ar y Cyngor i ddarparu cynllun o'r fath ac yn nodi beth sy'n ddisgwylidig gan gyngor sy'n gweithredu yn yr ardal fwyaf naturiol Gymraeg yn y byd. Ond oherwydd y sicrwydd demograffig hwnnw mae Gwynedd yn fwynhau, 'roedd yn hawdd syrthio i gyflwr o hunan gyfiawnder, oedd, yn anffodus, yn britho tudalennau'r ddogfen a bod rhaid wrth angerdd, awydd a dyhead i gael y maen i'r wal. Ychwanegwyd

nad oedd y newidiadau yn y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf wedi rhoi'r Gymraeg flaenaf bob tro, e.e. yn ystod y flwyddyn ddiwethaf 'roedd y Cyngor wedi mabwysiadu polisiau cynllunio fyddai, o'u gwireddu, yn tanseilio ein cymunedau Cymraeg. Roedd hefyd wedi cau clybiau ieuencid, trosglwyddo'r canolfannau hamdden i gwmni hyd braich a mabwysiadu cynllun economaidd, sef meysydd allweddol ddylai fod yn ganolog i'r cynllun yma os yw'r Gymraeg am gael ei normaleiddio yn y sir hon. Nodwyd ymhellach, o'r £52m a neilltuwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru at addysg Gymraeg, mai ychydig dros £1m yn unig ddaeth i Wynedd, sef tua 2% o'r cyfanswm, a hynny oherwydd mai cais am 2% yn unig a gyflwynwyd i'r Llywodraeth. Petai gan y Cyngor yr awydd a'r weledigaeth i wneud y Gymraeg yn hanfodol yng Ngwynedd, byddem wedi cyflwyno cynlluniau gwerth o leiaf £20m, ac er y byddai nifer o'r cynlluniau hynny yn debygol o fod wedi'u gwrthod, byddai'r weithred ynddi'i hun wedi anfon y neges i'r Llywodraeth nad yw Gwynedd am osgoi rhoi blaenoriaeth deilwng i'n hiaith. Collwyd cyfle na ellid fforddio ei golli a hynny oherwydd diffyg awydd, diffyg dyhead a diffyg uchelgais. Credid yn ogystal bod y cynllun hefyd yn colli cyfle. Dro ar ôl tro 'roedd cyfeiriad at roi dewis iaith i ddisgyblion ysgol, ond nid dyna beth sy'n digwydd yng Ngwlad y Basg, Catalwnia na rhannau o Iwerddon. Yn anffodus, ar hyn o bryd, 'roedd traean o ddisgyblion Cymraeg Gwynedd yn sefyll TGAU drwy gyfrwng y Saesneg ac roedd hynny'n cael effaith uniongyrchol ar bolisi addysg dwyieithog y sir. Er bod addysg Gymraeg ar dwf mewn sawl rhan o Gymru, roedd yn ymddangos nad oedd hynny'n wir am Wynedd. Deallid nad oedd yr un ysgol uwchradd yng Ngwynedd wedi derbyn yr un o'r llyfrau gosod Cymraeg sy'n cael eu darparu gan y Llywodraeth, er bod defnydd helaeth yn cael ei wneud o'r llyfrau hynny mewn sawl ardal arall. Dylai'r Pwyllgor iaith fod yn ganolog i weithredu ar gynnwys y cynllun hwn, ond dyma'r pwyllgor mwyaf di-rym a welwyd erioed. Roedd yn derbyn ac yn trafod adroddiadau, ond yn gwybod dim am ddeilliannau'r trafodaethau hynny ac nid oedd y pwyllgor yn cael trafod cwynion iaith o du'r cyhoedd hyd yn oed. Roedd y cynllun hwn yn gweld yr heriau, yn cydnabod y cyfleoedd ac yn adnabod rhai datrysiadau, ond roedd angen llawer mwy na hynny.

- Mynegwyd siomedigaeth gref ynglŷn ag agwedd negyddol y siaradwr blaenorol tuag at yr hyn mae'r Cyngor yn ei wneud dros yr iaith. Pwysleisiwyd bod y cyhuddiad o ddiffyg angerdd a diffyg dyhead am y Gymraeg yn anghywir a bod y Gymraeg yn flaenoriaeth i'r Cyngor hwn. 'Roedd datblygiad y polisi addysg Gymraeg o 1974 ymlaen wedi cymryd dygnwch a phenderfyniad, ac roedd yn broses sy'n parhau, a'n rôl ni yng Ngwynedd oedd profi i'r byd a'r betws ein bod yn falch o ddefnyddio'r Gymraeg ac yn annog pawb arall i wneud hynny. Ni dderbynnid bod y cynllun wedi'i nodweddu gan hunan-fodlonrwydd. Cydnabyddid bod lle i wella bob amser a byddwn yn edrych ar ein hunain, ond nid mewn ffordd hunan-foddhaus o gwbl.
- Er y cydnabyddid llwyddiant y Strategaeth iaith Addysg, roedd yna waith addysgu i'w wneud yn y cartref, cyn i'r plant gychwyn yn yr ysgol, ac wedi iddynt adael hefyd. Mewn ymateb, cytunwyd bod angen canolbwyntio ar y rhieni hefyd a cheisio annog plant sy'n gadael yr ysgol i fod â hyder yn eu gallu i siarad Cymraeg. Roedd blynyddoedd o waith wedi mynd i mewn i ddatblygu'r polisiau iaith sydd gennym, ac roedd yr ystadegau'n dangos bod system addysg Gwynedd yn llwyddo, gyda 92% o blant a phobl ifanc y sir yn medru siarad Cymraeg.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd dathlu llwyddiant a nodwyd bod y Gymraeg wedi goroesi yn well yng Ngwynedd nag yn unman arall. Awgrymwyd hefyd bod gwrthio'r syniad bod yr iaith ar ei gwely angau yn chwarae i ddwylo gelynion y Gymraeg.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd dysgu hanes Cymru yn fwy trwyadl yn yr ysgolion gan nad yw pobl yn gweld pwrpas mewn dysgu'r iaith os nad ydynt yn ymwybodol o'u hanes a'i diwylliant.
- Nodwyd y byddai'r iaith yng Ngwynedd mewn sefyllfa llawer gwaeth heb bolisiau iaith y Cyngor, ac yn sgil rhai o'r sylwadau yn y cyfarfod hwn, dylid edrych oes

modd cryfhau rhai o'r polisïau hyn. Er bod yna wahaniaeth barn yn y Siambr, roedd yn amlwg bod pawb yn gytûn o ran eu dyhead i weld yr iaith Gymraeg yn ffynnu yng Ngwynedd a dylai pawb gydweithio er mwyn sicrhau'r polisïau gorau bosib'.

PENDERFYNWYD derbyn y Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-23 a'r rhaglen waith gysylltiedig a chymeradwyo cychwyn ar y gweithredu.

10. ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2017/18

Croesawyd y swyddogion canlynol o Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod i roi gair o gyflwyniad ar y cychwyn ac i ateb cwestiynau'r aelodau.

- Jeremy Evans (Rheolwr Archwilio Perfformiad Llywodraeth Leol)
- Non Jenkins (Rheolwr Archwilio Perfformiad Llywodraeth Leol) – *fyddai'n yn cymryd drosodd gan Jeremy Evans fel y rheolwr newydd ar gyfer Gwynedd o hyn allan.*

Codwyd y pwyntiau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Holwyd beth oedd am ddigwydd yn sgil yr ail argymhelliaid ar dudalen 61 o'r rhaglen, sef bod cyrff cyhoeddus yn adolygu eu strategaethau a'u polisïau caffael yn ystod 2017-18 ac yn flynyddol wedi hynny i sicrhau eu bod yn adlewyrchu newidiadau ehangach i bolisïau a deddfwriaeth ac yn cefnogi gwelliant parhaus. Mewn ymateb, eglurwyd bod yr adroddiadau cenedlaethol yn cynnwys cyfres o argymhellion ac mai mater i'r Cyngor oedd penderfynu a oedd hyn yn berthnasol iddynt ac a ddylid newid unrhyw brosesau yn sgil hynny.
- Nodwyd bod yna ganmoliaeth mawr i waith cyllidol y Cyngor yn yr adroddiad a diolchwyd i staff yr Adran, dan arweinyddiaeth y Pennaeth Cyllid, am eu gwaith trylwyr a chydwybodol.
- Croesawyd y ffaith bod yr adroddiad yn cydnabod bod y trefniadau trosolwg a chraffu wedi gwella, ond gofynnwyd pa dystiolaeth oedd yna o hynny. Mewn ymateb, eglurwyd bod y Cyngor wedi adolygu ei drefniadau craffu drwy hunanwerthusiad a bod craffu bellach wedi'i ddiffinio'n glir o fewn y Cyfansoddiad o ran rolau aelodau a swyddogion. Roedd rhywfaint o'r gwaith craffu yn digwydd y tu allan i bwyllgorau ffurfiol, er bod angen datblygu hynny ymhellach er mwyn sicrhau dull cynhwysfawr a chyflawn o weithredu, ac roedd y gwaith cynllunio wedi gwella, er bod lle i wella hynny ymhellach drwy wneud pethau mewn ffyrdd mwy arloesol. Roedd hefyd angen eglurhad ynglŷn â rôl aelodau yn y cyfarfodydd adolygu perfformiad.
- Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r gost o gynhyrchu'r Adroddiad Gwella Blynyddol, eglurwyd mai £400,000 oedd cyfanswm cost yr holl waith archwilio ar draws y meysydd cyllid a pherfformiad. 'Roedd yr adroddiad yn grynodeb o'r gwaith yn unig ac roedd adroddiadau unigol llawer mwy manwl ar gael pe dymunai'r aelodau eu darllen. Cadwyd y ffioedd ar yr un lefel dros y 7 mlynedd ddiwethaf ac roedd yn ymddangos bod hynny'n ymrwymiad parhaus.

Diolchodd yr Arweinydd i'r archifwyr am eu gwaith gan nodi bod argymhellion yr adroddiad naill ai wedi derbyn sylw eisoes, neu fod gwaith ar droed i wneud hynny.

Cyflwynodd Non Jenkins ei hun i'r aelodau, fel y rheolwr newydd ar gyfer Gwynedd o hyn allan, gan roi braslun o'i rhaglen waith am eleni. Nodwyd mai hwn fyddai'r tro diwethaf i Jeremy Evans ymddangos gerbron y Cyngor a dymunwyd yn dda iddo i'r dyfodol.

PENDERFYNWYD derbyn Adroddiad Gwella Blynyddol 2017/18.

11. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2017/18

Croesawyd Dr Einir Young, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, i'r cyfarfod i gyflwyno adroddiad blynyddol y pwyllgor am 2017/18.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, diolchodd Dr Einir Young i'r Swyddog Monitro a'i dîm am eu harweiniad a'u gwaith cyson a pharhaus gyda'r Cyngor Sir a'r Cynghorau Cymuned.

Mewn ymateb i bryder a fynegwyd gan aelod ynglŷn â chynnal y gyfundrefn yn wyneb y lefel is o ymchwilio gan yr Ombwdsmon, eglurodd y Swyddog Monitro fod yr Ombwdsmon bellach yn gweithredu prawf budd cyhoeddus sy'n seiliedig ar flaenoriaethu adnoddau rhwng cwynion ar faterion yn cynnwys iechyd ac awdurdodau cyhoeddus eraill. 'Roedd y rhiniog ar gyfer ymchwilio i gwynion Cod Ymddygiad dipyn uwch bellach ac roedd yn rhesymol i ddisgwyl y byddai'r Ombwdsmon yn blaenoriaethu, e.e. marwolaeth mewn ysbyty dros anghydfod mewn cyngor cymuned. Er hynny, nid oedd y ffaith bod yna ymchwiliad neu beidio yn golygu bod y sawl y cyflwynwyd cŵyn yn ei erbyn yn rhydd o'r Cod Ymddygiad ac roedd yna waith i gyfathrebu a chynnal y Cod Ymddygiad.

Nodwyd nad oedd y fersiynau Cymraeg a Saesneg o Atodiad 1 i'r adroddiad – Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau 2017-18 yn cyd-fynd â'i gilydd. Nododd y Swyddog Monitro y byddai'n cysoni'r ddwy fersiwn cyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

Diolchwyd i'r Dr Einir Young am ei chyflwyniad.

12. PROTOCOL AR GYSYLLTIADAU AELODAU SWYDDOGION

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad, ar ran y Pwyllgor Safonau, yn argymhell i'r Cyngor fabwysiadu cyfres o ddiwygiadau i'r Protocol ar Gysylltiadau Aelodau Swyddogion.

Codwyd y pwyntiau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Yn wyneb rhai o'r trafodaethau yn gynharach yn y cyfarfod hwn, tynnwyd sylw at gymal 21.9.1 o'r protocol sy'n pwysleisio pwysigrwydd cadw enw da'r Cyngor a gwneud ymdrech i osgoi beirniadu cyd-aelodau.
- Croesawyd yr amserlen ar gyfer ymateb i ohebiaeth gan aelod o fewn 5 diwrnod gwaith, er y deallir nad yw hynny'n bosib' bob amser.
- Nodwyd ei bod yn bwysig bod swyddogion yn rhoi gwybod i aelodau lleol am unrhyw beth sy'n digwydd yn eu wardiau.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r diwygiadau i'r Protocol ar Gysylltiadau Aelodau Swyddogion a gynhwyswyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

13. RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Catrin Wager o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

“Mae'r Cyngor hwn yn nodi:

- Yn ôl y Cyfrifiad yn 2011, roedd 3,724 o breswylwyr Gwynedd (neu 3.1% o'r boblogaeth) wedi cael eu geni tu allan i'r DU. Mewn rhai ardaloedd ym Mangor, cododd hyn i 20.9% o'r boblogaeth.
- Mae ychydig o dan 30,000 o bobl yn cael eu cadw'n gaeth yn y DU bob blwyddyn dan gyfreithiau mewnfudo; gydag oddeutu 3,000 wedi'u cadw'n gaeth ar unrhyw adeg.

- Y DU yw'r unig wlad yng Ngorllewin Ewrop sy'n cadw unigolion yn gaeth am gyfnod amhenodol dan bwerau mewnfudo.
- Ar gyfartaledd, mae'n costio mwy na £31,000 i gadw person yn gaeth am flwyddyn. Roedd cyfanswm y gost flynyddol yn £164.4 miliwn yn 2013/14. Rhwng 2011-2014, gwariodd y llywodraeth £13.8 miliwn ar iawndal i bobl a gadwyd yn gaeth yn anghyfreithlon.
- Ar hyn o bryd, ceir 10 canolfan gadw yn y DU, sy'n cynnwys cyfleusterau cadw pobl yn gaeth am dymor byr.
- Bydd dros 50% o'r rheiny a gedwir yn gaeth mewn canolfan gadw mewnfudo yn cael eu rhyddhau i'r gymuned yn y DU.
- Mae mewnfudwyr yn cael eu cadw'n gaeth er dibenion gweinyddol.
- 2016 Fel rhan o Adolygiad Shaw, cynhaliodd yr Athro Mary Bosworth adolygiad systematig o astudiaethau oedd yn ymchwilio i'r effaith ar iechyd meddwl y bobl a gadwyd yn gaeth. Dangosodd yr astudiaethau mai 30 diwrnod oedd y trobwynt o ran effaith negyddol ar iechyd meddwl.
- Gorffennaf 2018 - Paratôdd Stephen Shaw ei Asesiad o gamau gweithredu'r llywodraeth yn dilyn ei Adroddiad yn 2016. Ynndo, mae'n pwysleisio'r angen brys i ddiwygio'r modd y cedwir pobl yn gaeth.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi ymhellach:

- Mawrth 2015 - Argymhellodd ymchwiliad ar y cyd gan y GSTB ar Ffoaduriaid a'r GSTB ar Fewnfudo i'r defnydd o Gadw Mewnfudwyr yn Gaeth yn y DU (yr ymchwiliad seneddol cyntaf erioed i'r defnydd o gadw mewnfudwyr yn gaeth yn y DU) fod y llywodraeth yn cyflwyno uchafswm terfyn amser o 28 diwrnod ar gyfer yr amser y gellir cadw unrhyw fewnfudwr yn gaeth.
- Mawrth 2016 - Pleidleisiodd Tŷ'r Arglwyddi i gyflwyno terfyn amser o 28 diwrnod ar gyfer cadw mewnfudwyr yn gaeth ond nid oedd hyn yn cynnwys pobl gyda dedfryd o garchar o 12 mis neu fwy.
- 2016-2017 - Mae Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Carchardai EM 2017 yn datgan "bod angen brys o hyd am uchafswm terfyn amser ar gyfer cadw mewnfudwyr yn gaeth"

Mae'r Cyngor hwn yn credu:

- Y dylai llywodraeth San Steffan ddod â'r arfer o gadw mewnfudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn gaeth am gyfnod amhenodol i ben.
- Y dylid cyflwyno terfyn amser o 28 diwrnod ar gyfer cadw pobl yn gaeth dan bwerau mewnfudo.
- Bod yr angen am Ddeddf Mewnfudo newydd fel rhan o weithdrefnau Brexit yn rhoi'r cyfle i gyflwyno terfyn amser.

Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu:

- Ysgrifennu at y Swyddfa Gartref yn nodi ein bod ni, fel Cyngor Gwynedd, yn dymuno gweld diwedd ar fewnfudwyr yn cael eu cadw am gyfnodau amhenodol dan bwerau mewnfudo, ac yn gofyn i derfyn amser o 28 diwrnod gael ei gyflwyno fel rhan o'r Ddeddf Mewnfudo newydd"

Mynegwyd cefnogaeth frwd i'r cynnig.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00yp a daeth i ben am 4.00yp.

CADEIRYDD

CYNGOR ARBENNIG 25/10/18

Yn bresennol: Y Cynghorydd Annwen Hughes (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Edgar Wyn Owen (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr: Menna Baines, Freya Hannah Bentham, Stephen Churchman, Steve Collings, Annwen Daniels, R.Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Peter Antony Garlick, Gareth Wyn Griffith, Alwyn Gruffydd, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, R.Medwyn Hughes, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Charles W.Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Huw Wyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Sion Wyn Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, Dafydd Meurig, Linda Morgan, Dafydd Owen, Dewi Owen, W.Roy Owen, Jason Parry, Dewi Wyn Roberts, Elfed P.Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Cemlyn Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gethin Glyn Williams ac Owain Williams.

Hefyd yn bresennol: Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Rhun ap Iarll (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Craig ab Iago, Dylan Bullard, Anwen Davies, Aled Evans, Dylan Fernley, Simon Glyn, Selwyn Griffiths, Sian Hughes, Judith Humphreys, Aeron Maldwyn Jones, Eric Merfyn Jones, Linda Ann Jones, Eryl Jones-Williams, Dilwyn Morgan, Rheinallt Puw, Peter Read, John Pughe Roberts, W.Gareth Roberts, Paul Rowlinson, Mike Stevens, Hefin Underwood, Catrin Wager a Gruffydd Williams.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi.

3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cydymdeimlwyd ag Aled Davies (Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant) ar golli ei fam yn ddiweddar.

Nodwyd bod y Cyngor yn dymuno cofio hefyd am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliad yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

Nodwyd bod mab y Cynghorydd Anwen Davies wedi bod yn ddifrifol wael yn ddiweddar a dymunwyd iddo adferiad llwyr a buan.

Llongyfarchwyd y Ffermwyr Ifanc ar eisteddfod lwyddiannus ym Mhorthmadog yn ddiweddar, ac yn arbennig i griw y Rhiw ar eu llwyddiant, ac un ohonynt, Sian Heulwen Roberts o'r Adran Amgylchedd, ar ennill y gadair.

Nodwyd y daeth y datganiad dydd Mawrth mai Ardaloedd y Llechi fydd yr enwebiad nesaf i gael ei gyflwyno i Unesco. Roedd hyn yn newyddion gwych i Wynedd gyfan fel cyfle i ddathlu ein treftadaeth ddiwydiannol unigryw.

Nodwyd y cynhelid gwasanaeth cyhoeddus byr yng Nghastell Caernarfon am 2.30 ym ar Sul y Cofio, 11 Tachwedd 2018 i nodi canmlwyddiant ers diwedd y Rhyfel Mawr. Yn ystod y gwasanaeth taenid llwch y Croesau Pabi a osodwyd yng Ngardd Goffa'r Rhyfel Mawr a agorwyd yn y Castell ar 7 Gorffennaf 2016, ar yr union leoliad lle bu'r ardd Goffa.

Nodwyd y cynhelid Bore Coffi gan Liz Saville Roberts AS yn Nhŷ Siamas, Sgwâr Eldon, Dolgellau am 10.30 yb, dydd Gwener 2 Tachwedd gyda'r Groes Goch a'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol er mwyn cynorthwyo'r elusennau i recriwtio gwirfoddolwyr. Eglurwyd eu bod yn gweithio ar y cyd ar brosiect o'r enw Camau Cadarn ac y byddai Ann Griffith, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu yno ac i roi sgwrs fer ar wirfoddoli.

Hefyd, nodwyd bod Liz Saville Roberts AS wedi trefnu digwyddiad i gofio Gwrthwynebwyr Cydwybodol y Rhyfel Byd Cyntaf, yng Nghapel Bowydd, Blaenau Ffestiniog, dydd Sadwrn 17 Tachwedd o 9.30 yb.

4. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL

Dim i'w nodi.

5. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

6. CYNLLUN TWF AR GYFER ECONOMI GOGLEDD CYMRU: Y DDOGFEN GYNNIG

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn gwahodd y Cyngor i gadarnhau'r Ddogfen Gynnig er mwyn rhoi mandad i'r arweinyddion ymrwymo i Gytundeb Penawdau'r Telerau gyda'r ddwy Lywodraeth.

Gosododd yr Arweinydd y cyd-destun gwleidyddol ac ymhelaethodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar bwrpas y ddogfen, y prif ystyriaethau a'r camau nesaf.

Rhoddydwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Yn ystod y drafodaeth, mynegwyd cefnogaeth frwd i'r ddogfen gan nifer o aelodau ar y sail:-

- Bod y cynllun hwn yn cynnig cyfle gwych ac unigryw i Wynedd ac y dylid cefnogi'r ddogfen ac ymddiried yn yr Arweinydd i frwydro ar ein rhan.
- Bydd y cynllun hwn yn helpu pobl ifanc i gael gwaith yn eu hardal leol ac yn creu'r amgylchedd i sector breifat y sir ffynnu yn y dyfodol.
- Wrth lunio'r cynllun hwn, mae'r ddwy sir bellaf i'r Dwyrain wedi troi eu golygon yn ôl at siroedd y Gorllewin fel bod y 6 awdurdod ar draws y Gogledd yn siarad ag un llais.
- Nid yw'r 'status quo' yn opsiwn a rhaid manteisio ar y cynllun hwn all drawsnewid economi'r Gogledd.
- Y croesawir y ffaith bod y cynllun yma yn mynd i roi adeiladau diwydiannol ar safleoedd strategol fel Parc Bryn Cegin, Bangor, sydd wedi bod yn wag ers 15 mlynedd ac mae'r addewid potensial o 250 o swyddi, dafliaid carreg o ganol y ddinas, yn newyddion cadarnhaol iawn.

I'r gwrthwyneb, lleisiwyd pryder am y cynllun gan eraill ar y sail:-

- Bod amheuaeth nad oedd y cynllun yn gwneud digon i gefnogi cefn gwlad Gwynedd.
- Bod Gwynedd yn fach ac eiddil o gymharu â siroedd poblog y Gogledd Dwyrain a Glannau Merswy ac y gallem ddifaru cael ein tynnu i mewn i gynllun o'r fath.

- Bod yr anghyfartaledd rhwng GVA y Gogledd Ddwyrain a'r Gogledd Orllewin yn drawiadol, gyda Wrecsam yn cyrraedd 80% bron o gyfartaledd GVA Cymru a Lloegr (heb gynnwys Llundain a De Ddwyrain Lloegr) tra bo Môn yn 50% o'r cyfartaledd. Disgwylid y byddai GVA Gwynedd, fel un o'r ardaloedd tlotaf yn Ewrop, yn isel hefyd, er y byddai'r swyddi sector cyhoeddus yn ardal Bangor a Chaernarfon yn sgiwio rhywfaint ar y ffigur hwnnw.
- Nad yw'r ddogfen yn cyfeirio at effaith dylifiad alltudion yn ôl i'r wlad yn sgil Brexit.
- O ran ynni niwclear a chloddfa gwastraff ynni niwclear Sellafield yn benodol, bod peryg' i ni gael ein tynnu i mewn i'r egwyddor, os ydi o'n ddigon da i Cumbria, mae'n ddigon da i Wynedd a Môn hefyd.
- Bod y ddogfen yn sôn am grantiau Ewropeaidd, ond ni fydd yna Undeb Ewropeaidd erbyn y bydd y cynllun hwn yn cael ei wireddu.
- Bod llawer o sôn am fusnesau a'r arian y bydd busnesau preifat yn rhoi i mewn, ond nid oes yna fusnesau yng Ngwynedd all gyfrannu, gan mai busnesau meicro sydd yma yn cyflogi hyd at 10 o weithwyr yn unig.
- Mai taflu llwch i lygaid pobl yw sôn am ledaenu'r ffyniant ac nad yw'r egwyddor o economeg rhaeadru erioed wedi gweithio.
- Y sylwir bod yr adroddiad yn 'nodi' bod risg i'r endyd cenedlaethol, yn hytrach nag yn 'mynnu' ein bod yn cadw ein endyd cenedlaethol.
- Na fyddai Llywodraeth San Steffan yn cefnogi'r cynllun hwn oni bai am y cymathu yn yr adroddiad rhyngom ni â Phwerdy'r Gogledd.
- Y deallid gan yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol y clustnodwyd £2m i hybu prosiect Arfor, sef y syniad o sefydlu un awdurdod ar gyfer siroedd Gorllewin Cymru. Dylid cydio yn y cynnig hwnnw yn hytrach na chefnogi'r Cynllun Twf.
- Bod trydydd argymhelliad yr adroddiad yn rhoi grym absoliwt i'r Arweinydd wneud penderfyniadau gwleidyddol ar economi'r sir.
- Bod peryg' y byddai'r prentisiaethau lefel uwch i gyd yn y Dwyrain ac allan o gyrraedd pobl ifanc o Wynedd oherwydd y costau teithio ac aros dros nos mewn rhai achosion.
- Bod peryg' y bydd rhai o'r penderfyniadau yn cael eu gwneud er lles y rhanbarth ar gost y Gorllewin a bod angen sicrwydd y bydd y Cyngor hwn yn cael ei lais yn y penderfyniadau.
- Bod yna ddiffygion sylfaenol sy'n tanseilio'r holl becyn, sef y diffyg cynllunio ar gyfer y posibilrwydd o ffin galed ym Mhorthladd Caergybi yn sgil Brexit a'r orddibyniaeth ar dechnoleg niwclear.
- Nad yw'n glir sut mae'r cynllun hwn yn mynd i atal dirywiad canol y trefi.
- Er bod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn gefnogol i'r cyfeiriad strategol ac wedi dangos cefnogaeth i fwrw ymlaen gyda'r Ddogfen Gynnig, 'roeddent hefyd wedi amlygu nifer o risgiau oedd angen sylw.

Mewn ymateb i'r pryderon a leisiwyd, nododd yr Arweinydd:-

- Ei fod yn ffyddiog bod pob ymdrech wedi'i wneud i ymestyn y cynllun ar draws holl ardaloedd Gwynedd ac y byddai'n cadw golwg ar y sefyllfa i'r dyfodol ac yn sefyll yn gadarn dros yr ardaloedd gwledig.
- Bod siroedd y Gogledd yn gryfach gyda'i gilydd. Y dewis arall fyddai gwneud dim, a byddai hynny'n sicr o adael Gwynedd mewn sefyllfa fwy gwan.
- Gallai siroedd y Dwyrain fod wedi creu endyd economaidd gyda rhannau o Ogledd Orllewin Lloegr, ond yn hytrach, bu iddynt benderfynu dewis gweithio gyda siroedd y Gorllewin.
- Bod arian Arfor yn £2m dros 4 sir dros 2 flynedd i wneud gwaith arloesol yng nghyswllt yr iaith a'r economi, ac er bod hyn i'w groesawu, nid oedd y £500,000 i Wynedd yn mynd i gyffwrdd y broblem.
- Nad oedd ganddo rym absoliwt a bod rhaid iddo ef, fel arweinyddion y 5 awdurdod lleol arall, gael caniatâd aelodau'r Cyngor i weithredu.
- Bod GVA Gwynedd yn 65% o'r cyfartaledd cenedlaethol, sy'n isel, ac y byddai'n anghyfrifol i wrthod unrhyw gyfle i geisio gwella'r sefyllfa.

- Ei bod yn fater o dristwch iddo ein bod, fel Cymry, ofn mentro a chyfeiriodd at enghraifft o Gymro Cymraeg sydd wedi sefydlu busnes llwyddiannus yng Ngwynedd.
- Y byddai'n rhaid i'r Bwrdd fod yn gytûn ar bob penderfyniad. Hefyd, gan fod 4 allan o 6 sir y Gogledd (sef Conwy, Dinbych, Gwynedd a Môn) yn siroedd gwledig ac yn rhannu'r un weledigaeth â ni o ran lledaenu'r twf, siroedd y Dwyrain fyddai yn y lleiafrif yn y trafodaethau.
- Mai 2 yn unig o'r 16 prosiect oedd yn ymwneud â'r diwydiant niwclear mewn unrhyw ffordd – un yn gynllun gan Brifysgol Bangor i wneud gwaith ymchwil a'r llall yn brosiect i wella'r isadeiledd yn Nhrawsfynydd, waeth beth fyddai'r defnydd o'r safle yn y dyfodol. Nid oedd datblygiad Wylfa yn rhan o'r Cynllun Twf.
- Bod Prosiect Caergybi yn ateb y cwestiwn Brexit a hefyd yn creu cyfleoedd llawer mwy na hynny i Gaergybi.
- Ei fod yn cydnabod bod yna risgiau ynghlwm â'r cynllun, ond y byddai yna drafodaethau manwl iawn ar yr ochr gyllidol eto cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol i'r dyfodol a rhaid mesur y risg yn erbyn y budd y gobeithid ei gael o'r cynllun.
- Tra'n cydymdeimlo gyda rhai o'r pwyntiau a godwyd gan y gwrthwynebwyr, ei fod yn annog yr aelodau i wrthod yr agwedd negyddol ac i edrych ymlaen yn bositif i'r dyfodol. Fel y dywedir yn yr ymadrodd – gwell cynnau cannwyll na rhegi'r tywyllwch.

Mewn ymateb i'r pryder ynglŷn â phrentisiaethau lefel uwch, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y ceisir £8m gan y ddwy lywodraeth ar gyfer datblygu'r agenda sgiliau yn y Gogledd, gyda'r mwyafrif sylweddol o'r arian yma yn mynd ar gyfer cefnogi pobl ifanc ar gyfer prentisiaethau, ac yn arbennig prentisiaethau lefel uwch, a chynnal pobl ifanc yn eu cymunedau.

Nodwyd y pwyntiau ychwanegol a ganlyn:-

- Y dylai'r Pwyllgor Craffu Cymunedau fod wedi cael y cyfle i edrych ar y mater hwn hefyd, gan y bydd y cynigion yn effeithio ar bob cymuned ar draws y sir.
- Ei bod yn siom gweld bod traean o aelodau'r Cyngor yn absennol o'r cyfarfod pwysig hwn.
- Y dymunid cael sicrwydd nad yw canol Bangor am golli allan gan fod angen buddsoddiad yn y ddinas fel sydd eisoes wedi digwydd, neu'n mynd i ddigwydd, mewn trefi eraill ar draws Gogledd Cymru.

Mewn ymateb i'r sylw ynglŷn â Bangor, nododd yr Arweinydd:-

- Y rhoddid ystyriaeth yn fuan i ddyrannu £250,000 o'r Rhaglen Targedu Buddsoddiad Mewn Adfywio ar gyfer cynllun adfywio Stryd Fawr Bangor fyddai'n tynnu i lawr swm ychwanegol o £600,000 gan Lywodraeth Cymru.
- Mai'r neges gref ymhlith arweinyddion y Gogledd oedd na ddylid bod yn blwyfol a rhaid cofio nad oedd rhai cynghorau yn cael fawr ddim yn uniongyrchol allan o'r cynllun, ond eto'n llwyr gefnogol iddo.

Diolchwyd i'r Arweinydd, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a phawb arall sydd wedi gweithio ar y cynllun hwn am eu mewnbwn.

Galwyd am bleidlais gofrestredig ar y cynnig (fel a nodir ym mharagraff 1 o'r adroddiad) i gadarnhau'r Ddogfen Gynnig er mwyn rhoi mandad i'r arweinyddion ymrwymo i Gytundeb Penawdau'r Telerau gyda'r ddwy Lywodraeth, yn ddarostyngedig i'r amodau a nodwyd. Pleidleisiodd mwy na chwarter yr aelodau oedd yn bresennol o blaid cofrestru'r bleidlais.

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y cynnig:-

O blaid (45)

Y Cyngorwyr Menna Baines, Freya Hannah Bentham, Steve Collings, Annwen Daniels, R.Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Peter Antony Garlick, Gareth Wyn Griffith, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, R.Medwyn Hughes, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Charles W.Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Huw Wyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Sion Wyn Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, Dafydd Meurig, Linda Morgan, Dafydd Owen, Dewi Owen, Edgar Owen, W.Roy Owen, Jason Parry, Dewi Wyn Roberts, Elfed P.Roberts, Mair Rowlands, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Cemlyn Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams a Gethin Glyn Williams.

Yn erbyn (4)

Y Cyngorwyr Stephen Churchman, Alwyn Gruffydd, Angela Russell ac Owain Williams.

Atal (1)

Y Cyngorydd Aled Wyn Jones.

Nododd y Cadeirydd fod y cynnig wedi cario.

PENDERFYNWYD yn ddarostyngedig nad yw'r penderfyniad yn ymrwmo'r Cyngor i fuddsoddiad ariannol ar y pwynt hwn a bod y risgiau a buddion ariannol i'w hystyried yn llawn pan gaiff y Cynllun terfynol ei gyflwyno i'r Cyngor am gymeradwyaeth:-

- (a) **Mabwysiadu'r Ddogfen Gynnig fel (1) sail strategaeth ranbarthol tymor hwy ar gyfer twf economaidd a (2) y cais rhanbarthol ar gyfer y rhaglenni a'r prosiectau blaenoriaeth a ddefnyddir i ffurfio cynnwys Cynllun Twf ar y cam Penawdau'r Telerau gyda'r Llywodraethau.**
- (b) **Awdurdodi'r Arweinydd i ymrwmo'r Cyngor i Benawdau'r Telerau gyda'r Llywodraethau law yn llaw ag arweinyddion gwleidyddol a phroffesiynol o'r naw partner statudol arall a gynrychiolir ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a Chyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy, gyda'r Ddogfen Gynnig yn gosod y ffiniau ar gyfer y cytundeb Penawdau'r Telerau.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00yb a daeth i ben am 11.45yb.

CADEIRYDD

Eitem 8

CYFARFOD:	Y Cyngor Llawn
DYDDIAD:	6 Rhagfyr 2018
AELOD CABINET:	Y Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Cyllid
TEITL:	CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2019/20
AMCAN:	Cadarnhau parhad y Cynllun Lleol cyfredol ar gyfer darparu cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2019
SWYDDOG CYSWLLT:	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

1. CRYNODEB GWEITHREDOL

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor ac i'w gymeradwyo ar gyfer 2019/20.
- 1.2 Ar 1 Ebrill 2013, fel rhan o raglen diwygio lles Llywodraeth San Steffan, diddymwyd Budd-dal y Dreth Cyngor, a cyflwynwyd Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor yn ei le.
- 1.3 Yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 (2013/3029), rhaid i bob awdurdod lleol ddarparu cynllun er mwyn pennu pa ostyngiadau fydd ar gael fel cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor. Mabwysiadwyd cynllun lleol cyfredol Cyngor Gwynedd (h.y. ar gyfer 2018/19) gan y Cyngor Llawn ar 14 Rhagfyr 2017.
- 1.4 Mae'r Rheoliadau'n mynnu fod rhaid i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r Cynllun Lleol, a hynny erbyn 31 Ionawr cyn dechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol.
- 1.5 Dan y cynllun lleol, gall trethdalwyr cymwys barhau i dderbyn gostyngiad hyd at 100% o werth eu biliau Treth Cyngor (lle'n derbyn rhai budd-daliadau).
- 1.6 **Argymhellir fod Cynllun Lleol Cyngor Gwynedd yn parhau heb ei newid ar gyfer 2019/20.** Mae eglurhaon manwl a rhesymau tu ôl i'r argymhellion dilynol yng nghorff dilynol yr adroddiad hwn.

2. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r Cyngor llawn benderfynu yn ffurfiol i –

- 2.1 Barhau i weithredu Cynllun Lleol y Cyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2019 fel ag yr oedd yn ystod 2018/19. Felly, bydd yr amodau canlynol (a – c isod) ynghylch yr elfennau disgrisiwn yn parhau:**
- a) Gweithredu diystyrwch o 100% i bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a hawlwyd oed gweithio fel ei gilydd.**
 - b) Peidio cynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bensiynwyr a hawlwyd oed gwaith o'r pedair wythnos safonol sy'n y Cynllun Rhagnodedig.**
 - c) Peidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio i bensiynwyr a hawlwyd oed gwaith o'r tri mis safonol sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn y Cynllun Rhagnodedig.**
- 2.2 Lle'n briodol, dirprwyo'r grym i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Gyllid, i wneud mân addasiadau i'r cynllun am 2019/20, ar yr amod na fydd yn newid sylwedd y cynllun.**

3. GWYBODAETH GEFNDIROL

- 3.1** Yn unol â Deddf Diwygio Lles 2013, ers 1 Ebrill 2013 mae'r cyfrifoldeb am drefnu cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor, a'r cyllid sydd ynghlwm ag ef, wedi ei drosglwyddo o'r DWP i awdurdodau lleol yn Lloegr ac i Lywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru.
- 3.2** Mae Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 (SI 2013/3029) yn galluogi'r ddarpariaeth o gymorth cymaint â 100% o'r dreth i'r hawlwyd ac yn ariannu rhan o'r gost berthnasol.
- 3.3** Cymeradwywyd Cynllun Lleol Cyngor Gwynedd am 2018/19 gan y Cyngor Llawn ar 14 Rhagfyr 2017. Mae'r Rheoliadau yn rheoli gweithrediad cynlluniau gostyngiadau ar draws Cymru gyfan ac wedi'u cynllunio i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cyflwyno cymorth i drethdalwyr Cymreig ar ffurf gyson.

4. CYNLLUN GOSTYNGIADAU 2019/20

- 4.1 Mae'r Rheoliadau (Rheoliad 18) yn datgan fod **rhaidd i awdurdod ystyried a ddylai ddiwygio ei gynllun** neu ei amnewid gan gynllun arall **ar gyfer pob blwyddyn ariannol**; rhaid i'r awdurdod wneud unrhyw ddiwygiad yn ei gynllun, neu unrhyw gynllun a amnewidir, **ddim hwyrach na 31 Ionawr** yn y flwyddyn ariannol sy'n rhagflaenu'r flwyddyn ariannol pan fo'r diwygiad neu'r cynllun a amnewidir i gael effaith.
- 4.2 Mae'r Rheoliadau (Rheoliad 12) yn datgan na ellir dirprwyo'r swyddogaeth o wneud y cynllun i'r Cabinet, a **rhaidd ei benderfynu gan y Cyngor llawn**.
- 4.3 Felly, bwriad yr adroddiad yma yw bodloni'r gofyn i'r Cyngor ystyried a ddylai ddiwygio ei gynllun lleol.
- 4.4 Mae disgrisiwn cyfyngedig o dan y Cynllun Rhagnodedig i gynghorau ystyried y 3 elfen dewisol penodol canlynol. Mae'r elfennau disgrisiwn yma'n fwy hael na'r cynllun cenedlaethol.

Pensiynau anabledd rhyfel a phensiynau gweddwon rhyfel (argymhelliad 2.1(a) uchod)

- 4.5 Mae disgrisiwn i gynyddu'r diystyrwch o bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a phobl oed gwaith fel ei gilydd.

Ar hyn o bryd, mae £10 cyntaf pensiwn anabledd a pensiwn gweddwon rhyfel wythnosol yn cael ei ddiystyru dan y rheoliadau. Fodd bynnag, mae gan awdurdodau lleol ddisgrisiwn i ddiystyru hyd at 100% o'r gwir swm dros y £10 cyntaf. Ers 1 Ebrill 1996, penderfynodd Cyngor Gwynedd, fel y mwyafrif o Awdurdodau eraill yng Nghymru, ddiystyru 100% o bensiynau rhyfel dros £10. Yn 2019/20, amcangyfrifir y bydd y diystyrwch hwn o bensiynau rhyfel yn costio oddeutu £39,000 i'r Awdurdod mewn gostyngiadau Treth Cyngor. Dyma yw sefyllfa 2018/19, felly mae'r ddarpariaeth berthnasol eisoes wedi'i gynnwys yn y gyllideb sylfaenol ac yn Strategaeth Ariannol 2019/20.

Argymhellir fod caniatáu'r disgrisiwn lleol hwn yng Ngwynedd yn parhau.

Cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bobl oed gwaith (argymhelliad 2.1(b) uchod)

- 4.6 Mae disgrisiwn i gynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bobl oed gwaith o'r pedair wythnos safonol wedi iddynt ddychwelyd yn ôl i'r gwaith, hynny os iddynt fod wedi derbyn budd dal perthnasol am o leiaf 26 wythnos.

Ni cheir unrhyw gyfyngiad ar y cyfnod hiraf gallant gael eu hymestyn iddo ond byddai goblygiadau ariannol. Amcangyfrifir y bydd cost 4 wythnos safonol o gyfnod estynedig yn 2018/19 oddeutu £19,000.

Argymhellir parhau i beidio addasu'r pedair wythnos o gyfnod estynedig sy'n y Cynllun Rhagnodedig.

Cyfnod ôl-ddyddio ceisiadau hwyr
(*argymhelliad 2.1(c) uchod*)

- 4.7 Mae disgrisiwn i gynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio cais hwyr tu hwnt i'r cyfnod tri mis safonol. Ni cheir unrhyw gyfyngiad ar y cyfnod hiraf gallant gael eu hymestyn iddo. Amcangyfrifir mai £17,000 fydd cost caniatáu'r ôl ddyddio cyfredol (3 mis) yn 2018/19.

Mae'r Cynllun Gostyngiadau presennol yn caniatáu ôl-ddyddio ceisiadau hwyr am gyfnod hyd at dri mis. Byddai ymestyn y cyfnod yn cynyddu cost y cynllun.

Argymhellir parhau i beidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio o'r tri mis safonol sy'n y Cynllun Rhagnodedig.

- 4.8 Mae'r argymhellion uchod ar gyfer 2019/20 yn unol â threfniadau cyfredol 2018/19.**

5. YMGYNGHORI

- 5.1 Petai'r Cyngor am addasu ei gynllun lleol – i bob pwrpas trwy newid y 3 maes o ddisgrisiwn lleol a ddisgrifir ym mharagraffau 4.5 i 4.7 – byddai'n rhaid iddo ymgynghori gydag “unrhyw un sydd â diddordeb”.
- 5.2 Bu ymarferiad ymgynghori hynod drylwyr a chynwysedig yn Rhagfyr 2012 / Ionawr 2013 ar gyfer cynllun 2013/14, a cynhaliwyd ymgynghoriad pellach o 29/11/13 tan 10/01/14 ar gynllun 2014/15.
- 5.3 Yn unol â Rheoliad 18(6), nid oes angen ymgynghori pellach gan nad oes bwriad i addasu'r Cynllun Lleol eleni.

6. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

- 6.1 Ar wahân i'r ariannu ar lefel y Cyngor, nid yw'r cynllun a gynigir ar gyfer 2019/20 yn cynnwys unrhyw newidiadau sylweddol o'r cynllun sy'n weithredol ar hyn o bryd. Felly, ni gynhaliodd Cyngor Gwynedd astudiaeth Asesiad Effaith Cydraddoldeb lleol eleni. Gwnaethpwyd hynny ar gyfer 2013/14, pan newidiwyd y drefn o'r Budd-dal Treth Cyngor i'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor.
- 6.2 Cyfyngedig iawn yw'r disgrisiwn lleol i addasu'r cynllun cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad effaith rheoleiddiol, sy'n cynnwys asesiad effaith cydraddoldeb, a deallaf fod y darganfyddiadau yn unol â'u disgwyliadau.

7. ADNODDAU

- 7.1 Mae costau'r Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor wedi eu cynnwys yn y 'setliad' grant i lywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru, ond dylid nodi nad yw'r setliad yma yn talu'r Cynllun Gostyngiadau yn llawn.
- 7.2 Bydd rhaid i'r Cyngor ariannu unrhyw gostau'r Cynllun nad ydynt wedi eu cynnwys yn y setliad, yn ogystal â chwyddiant, fydd ddim yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. O safbwynt chwyddiant, bydd cost y cymorth yn cynyddu'n gymesur â'r codiad yn y Dreth Cyngor.
- 7.3 Mae awdurdodau lleol yn derbyn cyfraniad tuag at gostau'r cynllun o fewn y setliad blynyddol, ond ers sefydlu'r cynllun yn 2013 nid yw'r setliad wedi adlewyrchu'r gwir gost lawn. Cost tybiannol y Gostyngiadau Treth Cyngor yng Ngwynedd yn 2018/19 (yn ôl rhaniad tybiannol cyfanswm yr Aseidiadau Gwariant Safonol rhwng gwasanaethau yn nhablau'r setliad amodol) yw £8.926m, ond amcangyfrifir y bydd y gwir wariant oddeutu £9.6m. Cost tybiannol y Gostyngiadau Treth Cyngor yng Ngwynedd yn setliad drafft 2019/20 yw £8.829m, sydd yn leihad pellach. Nid oes dewis ond wynebu'r sefyllfa yma, a bydd hyn wedi'i ystyried yn briodol a'i ffactorio mewn i'r Strategaeth Ariannol sy'n adnabod y bwlch ariannol yng nghyllideb 2019/20.

Eitem 9

CYFARFOD:	Y Cyngor Llawn
DYDDIAD:	6 Rhagfyr 2018
AELOD CABINET:	Cynghorydd Dafydd Meurig Dirprwy Arweinydd y Cyngor
TEITL:	TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU A/NEU CODI PREMIWM
AMCAN:	Cadarnhad ffurfiol am 2019/20 o'r penderfyniadau blaenorol i beidio caniatáu disgownt i ail gartrefi a pheidio caniatáu disgownt ar eiddo gwag, ac i godi Premiwm o 50% ar eiddo perthnasol o'r fath.
AWDUR:	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

CRYNODEB GWEITHREDOL

1. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn caniatáu disgresiwn i'r Cyngor godi Treth Cyngor llawn, caniatáu disgownt o hyd at 50%, neu godi premiwm o hyd at 100% ychwanegol ar Dreth Cyngor rhai dosbarthau o **ail gartrefi** ac **eiddo gwag hir dymor**.
2. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 1998, i ganiatáu DIM disgownt i ail gartrefi.
3. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 2009, i ganiatáu DIM disgownt i eiddo sydd wedi bod yn wag ers 6 mis neu fwy.
4. Ychwanegodd Adran 139 Deddf Tai (Cymru) 2014 Adrannau 12A a 12B i Ddeddf 1992 er mwyn cynnwys darpariaeth ddewisol i gynghorau i godi "premiwm" ychwanegol o ddim mwy na 100% ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy (Adran 12A) ac ail gartrefi perthnasol (Adran 12B).
5. Ar 8 Rhagfyr 2016, penderfynodd y Cyngor y byddai'n codi Premiwm o 50% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor perthnasol am y flwyddyn ariannol 2018/19. Roedd rhaid gwneud y penderfyniad cyntaf i godi "premiwm ail gartref" o leiaf blwyddyn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol, ond dim ond cyn dechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol mae angen gwneud unrhyw benderfyniad dilynol.

ARGYMHELLION

6. **Argymhellir fod y Cyngor yn gwneud dim newid i'r cynllun ar gyfer 2019/20. Hynny yw, ar gyfer 2019/20:**
 - Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.
 - Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 50% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.
 - Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn CODI PREMIWM O 50% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

CEFNDIR DEDDFWRIAETHOL

7. Rhoddir disgrisiwn i Gyngorau o dan Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i ganiatáu disgownt, ai peidio, i ddau gategori o ail gartrefi (dosbarthau A a B) ac i eiddo gwag tymor hir (dosbarth C). Gall y disgownt fod yn 50%, neu raddfa lai o ganran, neu ddim disgownt o gwbl.
8. Mae Adran 139 Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi ychwanegu Adrannau 12A a 12B i Ddeddf 1992 er mwyn cynnwys darpariaeth ddewisol i gyngorau i godi “premiwm” o ddim mwy na 100% ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy (Adran 12A) ac ail gartrefi dosbarth B (Adran 12B).
9. Yn Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998 (SI 1998/105) mae 'ail gartrefi' wedi'u categorio i ddau ddsbarth, sef dosbarthau A a B, tra bod dosbarth C yn cyfeirio at eiddo gwag:
 - ❑ **Dosbarth A** – Annedd lle nad oes trigolyn, sydd wedi'i ddodrefnu'n sylweddol lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol.
 - ❑ **Dosbarth B** – Annedd lle nad oes trigolyn, sydd wedi'u ddodrefnu'n sylweddol a nid oes cyfyngiad cyfreithiol ar ei feddiant.
 - ❑ **Dosbarth C** – Annedd sydd yn ddi-ddeddf a heb ei ddodrefnu'n sylweddol.
10. Diffinir “trigolyn” mewn perthynas ag unrhyw annedd fel unigolyn sydd wedi cyrraedd 18 mlwydd oed gyda'u prif neu unig breswylfa yn yr annedd (Adran 6(5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992).
11. Diwygiwyd y diffiniadau uchod gan Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2017 (SI 2017/42) a ddaeth i rym ar 18 Chwefror 2017.
12. Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015 (SI 2015/2068) yn eithrio ail gartrefi Dosbarth A rhag talu'r premiwm.

POLISI CYFREDOL A BWRIAD

13. Roedd y Cyngor wedi penderfynu caniatáu DIM disgownt i ail gartrefi (dosbarthau A a B) ym mhob blwyddyn ers derbyn hawl disgrisiwn o dan Reoliadau 1998, a hefyd wedi penderfynu caniatáu DIM disgownt i ddsbarth C (eiddo gwag) pob blwyddyn ers pan ddiwygiwyd y rheoliadau hynny ar gyfer 2009/10.
14. Fel canlyniad i'r newidiadau a daeth i rym yn sgil Deddf Tai (Cymru) 2014, ystyriwyd y mater gan y Cyngor Llawn ar 8 Rhagfyr 2016, a penderfynodd godi premiwm o 50% yn 2018/19 ar ail gartrefi dosbarth B ac ar eiddo gwag hir dymor dosbarth C (gwag am 12 mis neu fwy).
15. Mae'r holl bapurau cefndir mewn perthynas â'r penderfyniad cyntaf i godi premiwm i'w cael ar wefan Cyngor Gwynedd:
<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=130&mid=1656&ver=4>
16. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn mynnu fod rhaid gwneud penderfyniad yn unol ag Adrannau 12, 12A a 12B yn flynyddol, a hynny gan y Cyngor llawn.
17. Roedd rhaid i'r Cyngor wneud ei benderfyniad cyntaf i godi “premiwm ail gartrefi” (dosbarth B) o leiaf un flwyddyn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi. Nid yw'r cymal “rybudd blwyddyn” yn berthnasol i eiddo gwag hir dymor, nac i unrhyw benderfyniad ar y premiwm ail gartrefi ar ôl yr un cyntaf.

18. Mae strategaeth ariannol 2019/20, a setliad grant y Cyngor gan Lywodraeth Cymru, wedi'i seilio ar barhad y polisi i ganiatáu DIM disgownt, a byddai rhaid i unrhyw newid i'r polisi hwnnw gael ei ariannu gan y Cyngor yn 2019/20.
19. Mae'r rheoliadau ar gyfer gosod sylfaen y dreth wedi eu llunio fel nad yw penderfyniad i godi premiwm yn effeithio ar setliad grant y Cyngor gan Lywodraeth Cymru.
20. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn 2016 cyn gwneud y penderfyniad cyntaf i godi premiwm. Gan nad oes bwriad newid y drefn ar gyfer 2019/20, nid yw cynnal ymgynghoriad pellach yn angenrheidiol.

AIL GARTREFI

21. Wrth benderfynu yn Rhagfyr 2016 i godi premiwm ar Dreth Cyngor ail gartrefi yn 2018/19, rhoddwyd sylw i astudiaethau manwl oedd wedi cael eu cynnal ar effaith ail gartrefi ar gymunedau Gwynedd. Canlyniad y gwaith hwnnw oedd fod ail gartrefi yn cael effaith andwyol ar gymunedau. Nid oes tystiolaeth fod y sefyllfa wedi newid ers hynny.
22. Mae Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 yn nodi (yn rhan 6.4.96) fod "*fforddiadwyedd yn fater ar draws ardal y Cynllun*" a bod "*tystiolaeth yn awgrymu bod yr angen am dai fforddiadwy yn uwch mewn pentrefi arfordirol, yn enwedig oddi mewn i'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ac ar hyd arfordir Meirionnydd*". Dyma'r ardaloedd gyda'r crynhoad mwyaf o ail gartrefi.
23. Nid oes tystiolaeth ychwaith fod codi'r Premiwm wedi cael unrhyw effaith ar y diwydiant twristiaeth yn 2018.
24. Pan wnaethpwyd y penderfyniad gwreiddiol i godi Premiwm, adnabuwyd y risg o gyflymiad yn y nifer o eiddo sy'n trosglwyddo i fod yn unedau gwyliau hunan-ddarpar, sy'n destun ardrethi annomestig, am fod Asiantaeth Swyddfa'r Prisiwr wedi dyfarnu eu bod yn cwrdd â'r trothwy i allu gwneud hynny. Mae'r trosglwyddo wedi cyflymu, ac mae mwyafrif yr eiddo sy'n trosglwyddo yn derbyn Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bychain llawn, sy'n golygu nad oes unrhyw dreth yn daladwy arnynt.
25. Ers 1 Ebrill 2014, mae cyfanswm o **1,033** eiddo yng Ngwynedd wedi trosglwyddo o'r rhestr Treth Cyngor i'r rhestr Ardrethi Annomestig gan fod Asiantaeth Swyddfa'r Prisiwr wedi eu dynodi'n eiddo hunan-ddarpar yn unol ag Adran 66(2BB) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.
26. Mae nifer y trosglwyddiadau yn dangos tueddiad i gynyddu:

Blwyddyn ariannol	Nifer eiddo'n trosglwyddo
2018-19 (hyd at 30/9/2018)	197
2017-18	282
2016-17	199
2015-16	167
2014-15	188
Cyfanswm	1033

27. Mae aelodau a swyddogion y Cyngor wedi gohebu'n gyson gyda gweinidogion a swyddogion yn Llywodraeth Cymru i bwysu arnynt i weithredu i newid y drefn, gan fod hyn yn erydu'r pwrs cyhoeddus yn sylweddol. Gan fod yr eiddo hyn bellach wedi cael eu trosglwyddo, ni fyddai diddymu'r premiwm yn dod â'r eiddo yma yn ôl i'r sylfaen Treth Cyngor gan nad oes trethi'n cael eu talu arnynt yn awr, a felly mae cymhelliant i'r perchnogion i geisio'u cadw ar y rhestr annomestig.

EIDDO GWAG

28. O safbwynt tai gwag, mae'r Cyngor yn datgan "*Gall tai sy'n wag achosi niwsans a difrod i dai cyfagos. Maent hefyd yn wastraff oherwydd gallent gael eu defnyddio fel cartrefi*".
29. Ers Ebrill 2009, mae 100% o'r dreth cyngor wedi cael ei godi ar anheddau gwag hir dymor, yn dilyn naill ai cyfnod eithrio o 6 mis, neu gyfnod eithrio estynedig o 12 mis os oedd yr eiddo'n cael ei adnewyddu'n sylweddol. Ers Ebrill 2018, mae hyn wedi cynyddu i 150% o'r dreth cyngor ar eiddo a fu'n wag am 12 mis neu fwy. Byddai atal y premiwm, neu gynnig disgownt, yn rhoi cymhelliad anffodus i berchnogion gadw anheddau yn wag. Mae'n rhan o'r Strategaeth Tai Gwag fod y Cyngor am ymarfer ei disgresiwn i godi o leiaf 100% o dreth cyngor ar anheddau sy'n wag yn y tymor hir, fel cymhelliad i ddod â'r anheddau hyn yn ôl i ddefnydd.
30. Un o'r prif flaenoriaethau'r Cyngor (Blaenoriaeth Gwella 4) yw "Sicrhau mwy o gyflenwad o dai addas ar gyfer ein trigolion." Mae hyn yn cynnwys rhaglen o fewn Cynllun y Cyngor 2018-23 ar gyfer gwella'r ddarpariaeth o dai addas a fforddiadwy.

DEFNYDD CYNNYRCH Y PREMIWM

31. Cymeradwywyd Cyllideb 2018/19 gan y Cyngor llawn ar 8 Mawrth 2018. Roedd hynny'n cynnwys cymeradwyo dau 'alwad cyntaf' ar gynnyrch y Premiwm (yn y meysydd Tai a chasglu Treth Cyngor). Amcangyfrifwyd y byddai oddeutu £2m o incwm ychwanegol i'w flaenoriaethu. Penderfynodd y Cyngor y byddai'n neilltuo'r cyfan o'r swm a fyddai'n weddill o'r Premiwm Treth Cyngor 2018/19 mewn cronfa benodol i'w ddefnyddio ar flaenoriaethau'r Cyngor, gan gynnwys darparu tai ar gyfer pobl ifanc.
32. Penderfynwyd aros i adnabod y gwir gynnyrch treth o'r Premiwm, a'r bygythiad o doriadau ariannol i wasanaethau erbyn 2019/20, cyn priodoli'r cynnyrch treth o'r Premiwm yn 2019/20 a blynyddoedd dilynol. Cytunwyd byddai'n ddoeth i aelodau gadw hyblygrwydd i'r dyfodol, rhag ofn bydd angen i'r Cyngor wneud dewisiadau cyllidebol anodd ymhen 12 mis.
33. Bydd y Cyngor llawn yn ystyried Cyllideb 2019/20 ar 7 Mawrth 2019, a fydd yn cynnwys gwybodaeth pellach am ddefnydd o'r Gronfa Premiwm Treth Cyngor yma.

Eitem 10

CYFARFOD	Y Cyngor Llawn
DYDDIAD	6ed o Ragfyr, 2018
AELOD CABINET	Cynghorydd Dyfrig Siencyn
SWYDDOG CYSWLLT	Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth
TEITL YR EITEM	Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol - Adroddiad Argymhellion Terfynol
PWRPAS	Gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r argymhelliad i wneud cynrychiolaeth bellach i Lywodraeth Cymru, fel y nodir yn Atodiad A.

CEFNDIR

1. Bydd holl aelodau'r Cyngor yn ymwybodol fod y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol wedi cyhoeddi ei "Adroddiad Argymhellion Terfynol" ar gyfer yr arolwg o drefniadau etholiadol ar gyfer Cyngor Gwynedd ar y 6ed o Dachwedd, 2018.
2. Cyflwynwyd argymhellion y Comisiwn i Lywodraeth Crymu. Gwaith Llywodraeth Cymru yn awr, os gwêl yn dda, yw gweithredu'r argymhellion hyn nail ai fel y'u cyflwynwyd, neu gydag addasiadau.
3. Gellir cyflwyno unrhyw gynrychiolaethau pellach yn ymwneud â materion yr adroddiad at Lywodraeth Cymru o fewn 6 wythnos o gyhoeddi'r adroddiad (erbyn 18fed o Ragfyr, 2018). Noder y gall unrhyw un anfon cynrychioliadau ar yr argymhellion yn uniongyrchol at Lywodraeth Cymru i'r Gweinidog eu hystyried.

EGWYDDORION CRAIDD Y CYNGOR

4. Mae rhai egwyddorion sylfaenol yr ydym fel Cyngor wedi eu pwysleisio ers i adolygiad y Comisiwn Ffiniau ddechrau ym mis Mawrth 2017, ac rydym yn parhau i'w pwysleisio.

- Parch at yr angen am gymhareb etholiadol aelod: etholwr, ond pwyslais ar natur wledig y sir a'r hyn sy'n synhwyrol o ran cysylltiadau cymunedol naturiol
- Gwrthwynebu wardiau etholiadol dau aelod neu fwy er mwyn sicrhau fod gan bob cynghorydd gymhareb etholiadol gyfartal
- Yr angen i roi sylw i anghenion cynrychiolaeth leol effeithiol ac effaith y boblogaeth sydd ddim ar y gofrestr etholwyr ar bwyntiau arbennig mewn amser (yn benodol effaith myfyrwyr ac ymwelwyr)

Ymhelaethir ar yr egwyddorion craidd ym mwntiau 4 - 13 o'r ymateb drafft - gweler Atodiad A.

CRYNODEB O ADRODDIAD ARGYMHELLION TERFYNOL - Y SEFYLLFA YNG NGWYNEDD

5. Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor 71 ward etholiadol gyda 4 ohonynt yn ethol dau aelod sy'n golygu Cyngor o 75 aelod. Mae adroddiad argymhellion terfynol y Comisiwn Ffiniau yn argymhell y byddai gan y Cyngor 65 o ward etholiadol, 4 ohonynt yn ethol 2 aelod sy'n golygu Cyngor o 69 aelod.
6. Rwy'n falch o nodi fod yr adroddiad yn seiliedig ar gynigion y Cyngor mewn nifer o wardiau, ac mae hynny i'w groesawu.
7. Mae'r Comisiwn yn argymhell nad oes unrhyw newid i 27 o'r wardiau cyfredol. Mae hynny yn cyd-fynd â barn y Cyngor.
8. Derbyniwyd barn y Cyngor ar gyfer newidiadau arfaethedig ar gyfer 20 o'r wardiau. Maent yn seiliedig ar gyfuniad o gynigion gwreiddiol y Cyngor neu ymgynghori ymhellach. Bu i'r Cyngor gyflwyno cynigion ar gyfer addasu ffiniau nifer o wardiau er mwyn creu wardiau sy'n cyd-fynd â phrif ystyriaeth y Comisiwn, sef sicrhau cyfartaledd etholwyr o 1,243 i bob aelod yng Ngwynedd.
9. Mae 18 o wardiau lle mae argymhellion y Comisiwn Ffiniau yn wahanol i gynigion y Cyngor. Rydym yn parhau i sefyll wrth y cynigion gwreiddiol a roddwyd gan y Cyngor, oedd wedi eu selio ar gwrdd â'r gofynion cyfartaledd fesul aelod, a hefyd ar ymwybyddiaeth gref o'r ardal leol a'r datrysiad gorau ar gyfer pobl leol. Fodd bynnag rhaid derbyn bellach nad ydym am fedru llwyddo i wyrdroi'r cynigion hynny sydd ddim yn cydfynd a barn y Cyngor a rhaid canolbwyntio ein hymdrechion ar yr elfennau hynny sy'n parhau i wneud dim synnwyr o gwbl.
10. Gellir gweld manylion o'r wybodaeth uchod yn Atodiad B.

MATERION PENODOL

11. Wrth ystyried yr adroddiad, mae ambell lle lle mae'r defnydd o seddi aml aelod i'w gwestiynu ac ystyrir fod lle i dynnu sylw'r Gweinidog at hynny, yn benodol Ardal Bangor ac Ardal Bethel / Felinheli.

ARDAL BANGOR

12. Roedd cynigion drafft y Comisiwn Ffiniau yn derbyn cynigion gwreiddiol y Cyngor ynghylch newid ffiniau o fewn ardal Bangor, gyda'r effaith ar ardal bresennol Deiniol, Hirael, Hendre, Gareth a Menai, ond anghytundeb o ran nifer aelodau ar gyfer y wardiau hynny.

13. Mae argymhellion y Comisiwn Ffiniau yn eu adroddiad terfynol yn wahanol i'r hyn a gafodd ei nodi mewn unrhyw ymgynghoriad. Byddai cyfuno wardiau Marchog, Hiracl a rhan o Deiniol gyda dau aelod i gynrychioli y ward yn groes i'r egwyddor sylfaenol o sicrhau cymhareb gyson o etholwyr i aelod ac am greu dryswch i'r etholwyr wrth geisio adnabod eu cynrychiolydd etholedig. Yn ogystal, nid yw'n ystyried ffactorau am natur difreintiedig ward Marchog a'r gofynion ychwanegol ar gynghorwyr sy'n cynrychioli'r ward honno.
14. Byddai cyfuno wardiau Garth, Menai, Hendre a rhan o Deiniol gyda dau aelod i gynrychioli y ward arfaethedig hon eto yn groes i'r egwyddor sylfaenol o sicrhau cymhareb cyson o etholwyr i aelod, ac yn creu dryswch i'r etholwyr wrth geisio adnabod eu cynrychiolydd etholedig. Yn ogystal, nid yw'n ystyried y pwysau a chyfrifoldeb ychwanegol ar aelodau lleol a ddaw yn sgil poblogaeth myfyrwyr yn cynyddu am fisoedd o'r flwyddyn.
15. Argymhellir felly fod y Cyngor yn datgan wrth Lywodraeth Cymru ein bod yn anghydweld gyda'r argymhellion yn yr adroddiad terfynol ac yn argymhell cadw at gynigion gwreiddiol y Cyngor ar gyfer yr ardal fel a nodir yn pwynt 19 yn Atodiad A. Pe na bai Llywodraeth Cymru yn ystyried cynigion gwreiddiol y Cyngor fel yr opsiwn gorau i sefyllfa ardal Bangor, dymuna'r Cyngor ddatgan barn yr ystyria argymhellion drafft y Comisiwn Ffiniau yn well datrysiaid i'r ardal na'r argymhellion a nodwyd yn ei adroddiad terfynol.

ARDAL BETHEL A FELINHELI

16. Mae'r argymhellion yn adroddiad terfynol y Comisiwn Ffiniau yn parhau i argymhell uno wardiau Bethel a'r Felinheli er mwyn creu un ward gyda dau aelod.
17. Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gyson yn gwrthwynebu'r farn hon yn unol ag egwyddor sylfaenol y Cyngor o wrthwynebu wardiau aml-aelod. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi amlinellu natur ddiwylliannol a chymunedol y wardiau hyn, ac ymhelaethir ar hynny ym mhwyntiau 20 – 24 o ymateb y Cyngor yn Atodiad A.
18. Felly, argymhellir hefyd fod y Cyngor yn datgan wrth Lywodraeth Cymru ein bod yn anghydweld gyda'r argymhellion yn yr adroddiad terfynol ac yn argymhell cadw at gynigion gwreiddiol y Cyngor ar gyfer ardal Bethel a'r Felinheli, fel y nodir ym mhwynt 25 yn Atodiad A.

ARGYMHELLIAD

19. Gofynnir i'r Cyngor llawn gymeradwyo ymateb Cyngor Gwynedd i adroddiad argymhellion terfynol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth leol Cymru (Tachwedd 2018) fel y'i nodir yn Atodiad A.



YMATEB CYNGOR GWYNEDD I “ADRODDIAD ARGYMHELLION TERFYNOL” COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU (TACHWEDD 2018)

CEFNDIR.

1. Mae Cyngor Gwynedd yn falch o’r cyfle i ymateb i adroddiad argymhellion terfynol y Comisiwn ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, dyddiedig Tachwedd 2018 (cyhoeddwyd 6ed o Dachwedd, 2018). Cyflwynir yr ymateb i Lywodraeth Cymru cyn y terfyn amser o 6 wythnos o gyhoeddi’r adroddiad.
2. Bu i’r Cyngor gyflwyno cynigion drafft ac ymatebion i gynigion drafft y Comisiwn Ffiniau ac rydym yn falch fod sylwadau’r Cyngor wedi eu hymgorffori nifer o’r sylwadau.
3. Rydym yn parhau i sefyll wrth y cynigion gwreiddiol a roddwyd gan y Cyngor, oedd wedi eu selio ar gwrdd â’r gofynion cyfartaledd fesul aelod, a hefyd ar ymwybyddiaeth gref o’r ardal leol a’r datrysiad gorau ar gyfer pobl leol.

EGWYDDORION SYLFAENOL

4. Mae rhai egwyddorion sylfaenol yr ydym yn dymuno eu pwysleisio.
5. Tra’n derbyn fod yn rhaid i’r Comisiwn anelu at gymhareb etholiadol aelod: etholwr o tua 1:1200 neu mor agos â phosib at hynny, mae Cyngor Gwynedd yn pwysleisio natur wledig y Sir a’r hyn sy’n synhwyrol o ran cysylltiadau cymunedol naturiol, a hynny er mwyn sicrhau cynrychiolaeth effeithiol ar gyfer pobl Gwynedd. Gall hynny olygu gwyro oddi wrth yr hyn sy’n edrych yn weledol ar fap sydd am arwain at y gymhareb orau, i gymhareb fymryn llai cytbwys ond cynrychiolaeth ddemocrataidd llawer mwy synhwyrol i’r gymuned.
6. Fel egwyddor sylfaenol, rydym eisoes wedi nodi ein bod yn erbyn wardiau etholiadol dau aelod neu fwy gan nad yw’n gyson gyda’r egwyddor sylfaenol sydd gan y Comisiwn o sicrhau fod gan bob cynghorydd gymhareb etholiadol gyfartal, nac

ychwaith yr amcan o sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, fel sy'n ofynnol iddynt dalu sylw iddo.

7. Nodwn fod y Comisiwn wedi datgan yn ei ddogfen polisi ac arfer 2016 ei fod yn ofynnol i geisio sicrhau bod yna gymhareb gyson o etholwyr llywodraeth leol i nifer aelodau'r cyngor sydd i'w hethol ym mhob ward etholiadol.
8. Tybiwn mai pwrpas y gofyn yma yw sicrhau fod yna lwyth gwaith a chynrychiolaeth lled gyfartal ar draws ardal y Cyngor.
9. Mae'r Cyngor yn gryf o'r farn fod creu etholaethau mwy nag un aelod yn mynd yn groes i'r egwyddor yma.
10. Gan nad yw aelodau yn gallu trefnu ar adeg etholiad i un aelod gynrychioli hanner yr etholaeth ac un arall gynrychioli yr hanner arall, yr hyn sy'n cael ei greu yw etholaeth lle mae dau aelod yn gorfod cynrychioli dwbl y rhif etholwyr.
11. Mewn ardaloedd lle mae yna wahaniaeth gwleidyddol o sylwedd, mae o hefyd yn gallu arwain at bleidleisiau unigolion yn golygu llai am nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu yng nghyfansoddiad aelodau'r Cyngor.
12. Er enghraifft pe byddem yn cymryd dwy etholaeth gyda 1,000 o etholwyr yr un; Etholaeth A yn cynnwys 800 o etholwyr Plaid X a 200 o etholwyr Plaid Z; gydag Etholaeth B yn cynnwys 400 etholwyr Plaid X a 600 etholwyr Plaid Z, o'u cadw ar wahân, byddai Plaid X yn cael un aelod a Phlaid Z yn cael un. Fodd bynnag, o greu etholaeth 2 aelod, byddai Plaid X yn cael 2 aelod a Phlaid Z ddim yn cael ei chynrychioli o gwbl.
13. Yn ogystal, rydym yn parhau i atgyfnerthu'r farn a nodwyd yn wreiddiol fod angen ystyriaeth i anghenion cynrychiolaeth leol effeithiol ac effaith y boblogaeth sydd ddim ar y gofrestr etholwyr ar bwynt arbennig mewn amser, wrth lunio cynigion. Yn benodol, mae'r galw ar lwyth gwaith sydd yn codi yn sgil presenoldeb myfyrwyr, ymwelwyr, perchnogion ail-gartrefi ac eraill sydd ddim ar y gofrestr etholwyr lleol yn golygu bod yn rhaid rhoi sylw i hynny wrth bennu maint etholaethau.

CYNRYCHIOLAETHAU PENODOL

ARDAL BANGOR

14. Roedd cynigion drafft y Comisiwn Ffiniau yn derbyn cynigion gwreiddiol y Cyngor ynghylch newid ffiniau o fewn ardal Bangor, gyda'r effaith ar ardal presenol Deiniol,

Hirael, Hendre, Gareth a Menai, ond anghytundeb o ran nifer aelodau ar gyfer y wardiau hynny.

15. Mae argymhellion y Comisiwn Ffiniau yn ei adroddiad terfynol yn wahanol i'r hyn a gafodd ei nodi mewn unrhyw ymgynghoriad.
16. Byddai cyfuno wardiau Marchog, Hirael a rhan o Deiniol gyda dau aelod i gynrychioli yn groes i'r egwyddor sylfaenol o sicrhau cymhareb gyson o etholwyr i aelod ac am greu dryswch i'r etholwyr wrth geisio adnabod eu cynrychiolydd etholedig. Yn ogystal, nid yw'n ystyried ffactorau am natur ddifreintiedig ward Marchog a'r gofynion ychwanegol ar gynghorwyr sy'n cynrychioli'r ward honno.
17. Byddai cyfuno wardiau Garth, Menai, Hendre a rhan o Deiniol gyda dau aelod i gynrychioli y ward arfaethedig hon eto yn groes i'r egwyddor sylfaenol o sicrhau cymhareb cyson o etholwyr i aelod, ac yn creu dryswch i'r etholwyr wrth geisio adnabod eu cynrychiolydd etholedig.
18. Yn ogystal, rydym o'r farn ei bod yn hanfodol rhoi ystyriaeth i'r boblogaeth myfyrwyr yn ward Menai a Garth, gan fod y boblogaeth yn fwy na dyblu yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae pwysau ychwanegol ar wasanaethau a phroblemau yn codi yn sgil y niferoedd uwch o ganlyniad i boblogaeth myfyrwyr, ac yn annatod felly mae'r cyfrifoldeb ar yr aelod(au) lleol yn cynyddu. Tra'n ymwybodol fod nifer o'r myfyrwyr ddim yn cofrestru, nodir y gellid cael gwybodaeth gyfredol gan y Brifysgol am y nifer o fyfyrwyr sy'n byw ym Mangor. Noder fod y Comisiwn Ffiniau yn cyfeirio at, ac yn cymryd sylw o, boblogaeth yn debygol o godi yn ardal Penrhosgarendd/Pentir o ganlyniad i ddatblygiad tai newydd Redro. Nid yw'r unigolion hynny wedi cyrraedd yr ardal eto, ac yn sicr heb gofrestru fel etholwyr. Os oes modd ystyried y boblogaeth debygol hon, nodwn ein bod o'r farn y dylid hefyd ystyried poblogaeth myfyrwyr sydd ddim yn cofrestru.
19. Dymuna'r Cyngor ddatgan wrth Lywodraeth Cymru ein bod yn anghydweld gyda'r argymhellion yn yr adroddiad terfynol ac yn argymhell cadw at gynigion gwreiddiol y Cyngor ar gyfer yr ardal. Mae'r rhesymeg wedi ei nodi ym mhwyntiau 14 – 18 uchod. Pe na bai Llywodraeth Cymru yn ystyried cynigion gwreiddiol y Cyngor fel yr opsiwn gorau i sefyllfa ardal Bangor, dymuna'r Cyngor ddatgan barn yr ystyria argymhellion drafft y Comisiwn Ffiniau yn well datrysiaid i'r ardal na'r argymhellion a nodwyd yn ei adroddiad terfynol.

ARDAL BETHEL A FELINHELI

20. Mae ardal Bethel ac ardal Y Felinheli yn ddwy ward ar wahan o fewn ardal gyfagos. Mae 1,007 o etholwyr (rhag amcenir 995) yn ward Bethel, sydd 17% islaw'r cyfartaledd cyfredol. Mae gan ward Y Felinheli 1,694 o etholwyr (rhag amcenir 1,736), sydd 40% yn uwch na'r cyfartaledd. Mae'r Comisiwn Ffiniau wedi argymhell ymuno'r ddwy ward er mwyn creu un ward etholiadol newydd o'r enw Bethel a'r Felinheli fyddai â 2,701 o etholwyr (rhag amcenir 2,731) sydd 12% uwchlaw'r cyfartaledd, a fyddai'n cael ei gynrychioli gan ddau aelod.
21. Yn unol â'r sylwadau blaenorol, rydym yn gwrthwynebu wardiau aml-aelod am y rhesymau a nodwyd eisoes. Rydym yn parhau i sefyll wrth ein cynnig gwreiddiol sef cadw'r ddwy ward ar wahan fel ag y maent yn gyfredol. Nid oes cysylltiadau cymunedol sy'n dod a'r ddwy ardal at ei gilydd, er agosrwydd y ddau bentref ar fap.
22. Mae ward Bethel, er ei fod yn gymharol fychan yn ôl canllawiau'r Comisiwn, yn bentref â'i hunaniaeth ei hun fel uned ac yn gymuned naturiol sydd yn tyfu a datblygu ac mae'n gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol. Mae cysylltiadau cymunedol gydag ardal Llanddeiniolen a Llanrug. Mae gan ward Y Felinheli ar y llaw arall ei hunaniaeth ei hun fel uned, mae'n gymuned hunangynhaliol yn ddiwylliannol a chymunedol.
23. Gan dderbyn fod etholaeth Y Felinheli 40% uwchlaw'r cyfartaledd, ni ellir berwi popeth i lawr i fesur mathemategol, ac yn yr achos yma 'rydym yn gryf o'r farn fod yn rhaid derbyn un etholaeth sydd yn fwy na'r arfer gan nad yw'r opsiwn a argymhellir gan y Comisiwn yn gwneud synnwyr cymunedol.
24. Ar ben hynny, yn unol a'n dadleuon am etholaethau aml aelod – nid creu cytbwysedd cynrychioladol y byddem ond creu sefyllfa lle byddai'n rhaid i'r ddau aelod gynrychioli etholaeth sydd 123% uwchlaw'r cyfartaledd.
25. Dymuna'r Cyngor ddatgan wrth Lywodraeth Cymru ein bod yn anghydweld gyda'r argymhellion yn yr adroddiad terfynol ac yn argymhell cadw at gynigion gwreiddiol y Cyngor gan gadw ward Bethel a ward y Felinheli ar wahan.

WARDIAU LLE NAD OES NEWID = 27 mewn nifer

Arfon	Deiniolen, Groeslon, Llanberis, Llanrug, Penygroes, Dewi (Bangor), Glyder (Bangor), Tregarth a Mynydd Llandygai [8]
Dwyfor	Abererch, Criccieth, Dolbenmaen, Efailnewydd/Buan, Llanystumdwy, Nefyn, Porthmadog (Dwyrain), Porthmadog (Gorllewin), Pwllheli (De), Pwllheli (Gogledd), Llanaelhaearn [11]
Meirionydd	Aberdyfi, Dyffryn Ardudwy, Trawsfynydd, Abermaw, Brithdir, Bowydd a Rhiw, Corris a Mawddwy, Y Bala [8]

WARDIAU LLE MAE ARGYMHELLION Y COMISIWN YN CYD-FYND AG ARGYMHELLION Y CYNGOR = 20 mewn nifer

Addaswyd ffiniau ar gyfer creu wardiau sy'n cyd-fynd ag ystyriaeth graidd y Comisiwn Ffiniau sef nifer yr etholwyr fesul aelod etholedig, gyda'r Comisiwn wedi nodi mai'r cyfartaledd ar gyfer bob aelod yng Ngwynedd fyddai 1,243.

Arfon Canol	Cwm y glo, Penisa'r-waun, Caernarfon (wardiau Cadnant, Menai, Peblig, Seiont, y Dref), Llanllyfni. Hefyd wardiau Rachub, Gerlan ac Ogwen yn ardal Bethesda yn hytrach nag 1 ward 3 aelod fel nodwyd yng nghynigion drafft y Comisiwn. [11]
Dwyfor	Clynnog, Morfa Nefyn a Thudweiliog, Aberdaron a Botwnnog [3]
Meirionydd	Bro Dysynni (Bryncrug a Llanfihangel), Arthog a Llangelynnin, Morfa Tywyn, Gorllewin Tywyn. Hefyd, wardiau Gogledd Dolgellau a De Dolgellau a addaswyd o gynigion drafft y Comisiwn yn dilyn sylwadau'r Cyngor. [6]

WARDIAU LLE MAE ARGYMHELLION Y COMISIWN YN WAHANOL I GYNNIGION Y CYNGOR = 18 mewn nifer

Mae'r Cyngor wedi ymateb i'r ymgynghoriad drafft ac wedi pwysleisio ein bod yn parhau i sefyll wrth y cynigion gwreiddiol a roddwyd gan y Cyngor, oedd wedi eu selio ar gwrdd â'r gofynion cyfartaledd fesul aelod, a hefyd ar ymwybyddiaeth gref o'r ardal leol a'r datrysiad gorau ar gyfer pobl leol.

Arfon	Arllechwedd, Pentir, Bontnewydd, Waunfawr, Llanwnda, Talysarn(Tryfan), Bethel a'r Felinheli *, Ardal Bangor* (2 ward newydd yn unol â'r adroddiad terfynol) [9]
Dwyfor	Abersoch a Llanengan, Llanbedrog a Mynytho, Porthmadog-Tremadog [3]

Meirionydd Penrhyndeudraeth, Llandderfel, Llanuwchllyn, Teigl, Diffwys a Maenofferen, Harlech
a Llanbedr (1 ward, 2 aelod) [6]

* GWELER YR ADRODDIAD LLAWN AR GYFER ARGYMHELLION

Eitem 11

CYFARFOD	Cyngor
DYDDIAD	6 Rhagfyr 2018
AELOD CABINET	Cynghorydd Nia Jeffreys
TEITL	Penderfyniad Brys Cabinet
AMCAN	Er Gwybodaeth
AWDUR	Swyddog Monitro

CEFNDIR

1. Cyflwynwyd adroddiad gyda drafft o Ddatganiad o Effaith Lleol ar gyfer ymchwiliad "DCO" Wylfa newydd. i'r Cabinet ar y 27ain o Dachwedd 2018. Amcan yr adroddiad oedd derbyn cymeradwyaeth y Cabinet i'r cynnwys. Rhaid oedd cyflwyno'r datganiad i'r ymchwiliad erbyn y 4ydd o Ragfyr 2018 . Oherwydd yr amserlen gaeth a phwysigrwydd y mater roedd angen sicrhau fod y penderfyniad yn weithredol yn syth.

PENDERFYNIAD BRYS

2. O ganlyniad, bu'n ofynnol gwneud penderfyniad brys yn unol â Rhan 7.25.2 o'r Cyfansoddiad y dylid ei eithrio o'r drefn galw i mewn. Mae hyn yn caniatáu i benderfyniad Cabinet fod yn weithredol yn syth ac yn benodol felly heb ddisgwyl am bum diwrnod gwaith clir cyn y gellir ei weithredu. Mae'r drefn yma yn amodol ar gydsyniad Cadeirydd y Cyngor ac adrodd ar hyn i'r Cyngor nesaf.
3. Derbyniwyd cytundeb Cadeirydd y Cyngor ei fod yn fater brys a bod y penderfyniad a gynigwyd yn un rhesymol o dan yr amgylchiadau.

ARGYMHELLIAD

I dderbyn a nodi'r adroddiad.

Eitem 13a

CYFIEITHIAD / TRANSLATION

Y Swyddfa Gartref

Cynghorydd Annwen Hughes
Cadeirydd y Cyngor
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfeirnod: TRO/0016054/18

21 Tachwedd 2018

Annwyl Gynghorydd Hughes,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Hydref at y Gweinidog Gwladol dros Fewnfudo ynghylch canolfannau cadw i fewnfudwyr. Pasiwyd eich llythyr ataf i i ymateb iddo.

Mae'r Llywodraeth yn ymroddedig i ddarparu system mewnfudo sy'n annog ac yn cefnogi mewnfudwyr i gydymffurfio â'n rheolau mewnfudo; mae hyn yn cynnwys gadael y DU yn wirfoddol os nad oes ganddynt hawl i fod yma. I'r rheini sy'n gwrthod cydymffurfio â'n rheolau, mae camau gorfodi, yn cynnwys eu cadw'n gaeth lle bo angen, yn parhau'n briodol. Fodd bynnag, nid yw'r gyfraith yn caniatáu eu cadw am gyfnod amhenodol. Er mwyn gallu gwneud penderfyniad i gadw, neu barhau i gadw unigolyn, mae angen rhagolygon realistig y bydd modd symud yr unigolyn hwnnw o'r DU o fewn cyfnod rhesymol o amser. Mae polisiâu cyfredol sydd wedi'u cyhoeddi yn y DU eisoes yn ei gwneud hi'n ofynnol mai prin y cedwir pobl yn gaeth ac y gwneir hynny am y cyfnod byrraf posib. Cynhelir adolygiadau rheolaidd o sefyllfa cadw unigolyn er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n gyfreithlon.

Yn ehangach, gwnaeth yr Ysgrifennydd Cartref ddatganiad i'r Senedd ar 24 Gorffennaf ynghylch cadw mewnfudwyr yn gaeth a chyhoeddi adolygiad dilynol Stephen Shaw o les wrth gadw pobl fregus, yr ydych yn cyfeirio ato yn eich llythyr. Yn y datganiad hwnnw, gwnaeth yr Ysgrifennydd Cartref hi'n glir ei fod yn ymroddedig i fynd ymhellach ac yn gyflymach gyda'r diwygiadau i'r modd y cedwir pobl yn gaeth. Amlygodd y datganiad bedwar prif flaenoriaeth: annog a chefnogi dychwelyd yn wirfoddol, yn cynnwys gwneud mwy i chwilio am ddewisiadau amgen yn hytrach na chadw pobl yn gaeth; cynyddu tryloywder ynghylch cadw mewnfudwyr yn gaeth; gwella'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl fregus sy'n cael eu cadw'n gaeth; a chychwyn ymgyrch newydd ynghylch urddas pobl sy'n cael eu cadw'n gaeth.

Mae'r Swyddfa Gartref yn bwrw ymlaen ag ystod eang o weithgareddau mewn ymateb i argymhellion Mr Shaw. Mae bwrdd rhaglen ar draws y Llywodraeth yn goruchwyllo'r gwaith i weithredu'r ymrwymadau sydd wedi'u gwneud yn natganiad yr Ysgrifennydd Cartref ac mae'r Swyddfa Gartref eisoes yn gweithredu newidiadau.

Cyflwynwyd polisi *Adults at Risk in Immigration Detention* ym mis Medi 2016, fel rhan o ymateb y Llywodraeth i adolygiad blaenorol Mr Shaw, i gryfhau'r dybiaeth bresennol yn erbyn cadw'r rheini sy'n arbennig o fregus yn gaeth mewn canolfan gadw. Yn ei adolygiad diweddaraf, argymhellodd Mr Shaw y dylid gwahodd y Prif Arolygydd Annibynnol dros Ffiniau a Mewnfudo i adrodd yn flynyddol ar weithrediad y polisi. Mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi ymrwymo i wneud hynny ac mae'r Swyddfa Gartref yn trafod gyda'r Prif Arolygydd ynghylch ystod ac amseriad yr adolygiadau blynyddol.

Yn gywir

Sheri Yusuf
Polisi System Ffiniau, Mewnfudo a Dinasyddiaeth
E-bost: Public.Enquiries@homeoffice.gov.uk